# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 17 Hydref 2016

Amser: 13.45

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Buckle**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddArchwilio@cynulliad.cymru

## (13.45 - 14.00 - Cyfarfod preifat cyn y prif gyfarfod)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Papur(au) i'w nodi

(Tudalennau 1 - 80)

**Craffu ar Gyfrifon: Rhagor o wybodaeth gan Gomisiwn y Cynulliad (28 Medi 2016)**

## 3 Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai: Byrddau Iechyd

(14.05-15.15) (Tudalennau 81 - 98)

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil
Nodyn Cyngor Technegol (1) - Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai

Lynda Williams - Cyfarwyddwr Nyrsio, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Anthony Haywood - Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyfleusterau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Rhiannon Jones - Cyfarwyddwr Nyrsio, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Helen Ward - Pennaeth Deieteg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Colin Phillpott - Rheolwr Cyfleusterau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**(15.15-15.25 Egwyl)**

## 4 Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai: Llywodraeth Cymru

(15.25 - 16.30) (Tudalennau 99 - 121)

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil
PAC(5)-06-16 Papur 1

Dr Andrew Goodall - Cyfarwyddwr Cyffredinol/Prif Weithredwr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru
Yr Athro Jean White - Prif Swyddog Nyrsio, Llywodraeth Cymru

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

(16.30)

Eitem 6 a'r cyfarfod ar 31 Hydref 2016

## 6 Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

(16.30- 17.00) (Tudalennau 122 - 124)

PAC(5)-06-16 Papur 2

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 3 Hydref 2016

Amser: 14.01 - 16.05

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3735

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Neil Hamilton AC<br>Mike Hedges AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Lee Waters AC<br>Paul Davies AC (yn lle Mohammad Asghar (Oscar) AC) |
| Tystion: | Syr Derek Jones, Llywodraeth Cymru<br>Gawain Evans, Llywodraeth Cymru<br>Peter Kennedy, Llywodraeth Cymru |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Mark Jones |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Buckle (Clerc)<br>Meriel Singleton (Ail Glerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 1MB) Gweld fel HTML (259KB)

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Mohammad Asghar. Dirprwyodd Paul Davies ar ei rhan.

1.3 Hefyd, croesawodd y Cadeirydd ddirprwyaeth o Senedd Botswana a fu'n arsylwi rhan o'r cyfarfod o'r oriel gyhoeddus.

## 2 Papur(au) i'w nodi:

2.1 Cytunwyd ar y cofnodion.

## 3 Craffu ar Gyfrifon 2015-16: Llywodraeth Cymru

3.1 Bu'r Pwyllgor yn holi Syr Derek Jones, yr Ysgrifennydd Parhaol, Gawain Evans, y Cyfarwyddwr Cyllid a Peter Kennedy, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru ynghylch Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2015-16.

3.2 Cytunodd Syr Derek Jones i anfon rhagor o wybodaeth am y materion a ganlyn:

- I ba raddau y mae awdurdodau lleol yn recriwtio pobl allanol sydd â'r arbenigedd priodol ym maes caffael
- Ffigurau'n ymwneud â phrosesau caffael Llywodraeth Cymru a sector cyhoeddus Cymru
- Eglurhad o'r amrywiadau yn y tanwariant o £153 miliwn yn y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, fel y'i nodir yn nhabl y Crynodeb o'r Alldro, ac effaith y tanwariant yng Nghwmpas Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol pe na bai dau o'r cyrff iechyd wedi gorwario (ynghyd ag effaith penderfyniad Llywodraeth Cymru i roi arian ychwanegol i ddau fwrdd iechyd a oedd wedi gorwario ac effaith hyn ar y gofyniad arian parod)
- Cyfeirio'r Pwyllgor at lincs lle caiff rhagor o wybodaeth (gohebiaeth flaenorol) am Gronfa Risg Cymru
- Hysbysu'r Pwyllgor am y camau disgyblu posibl yn ymwneud â thalu'r swm ofer o £1. 25m

Sut y caiff rhwymedigaethau cyfyngedig a heb eu meintoli eu cyfrifo o ran eglurder

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Craffu ar Gyfrifon 2015-16: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

5.1 Trafododd yr aelodau'r dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod y broses o graffu ar gyfrifon 2015-16.

**Sylwadau i gloi**

Gan nad oedd y tyst a oedd i fod yn bresennol yn y cyfarfod ar 10 Hydref ar gael, cytunodd y Pwyllgor i ohirio busnes nes y gall tyst fod yn bresennol ar 14 Tachwedd.

Bydd y Cadeirydd i ffwrdd ar fusnes y Cynulliad ar 17 Hydref a galwodd ar yr aelodau i enwebu cadeirydd dros dro ar gyfer y cyfarfod ar 17 Hydref, a hynny o dan Reolau Sefydlog 17.22 a 18.6. Enwebwyd Rhun ap Iorwerth gan Rhiannon Passmore ac fe'i hetholwyd.

Suzy Davies (Aelod)

Comisiynydd y Cynulliad
Assembly Commissioner

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

28 Medi 2016

Annwyl Nick

Yn dilyn ein hymddangosiad yn eich Pwyllgor ar 19 Medi, rwy'n ysgrifennu i roi rhagor o wybodaeth, yn ychwanegol at yr ymatebion a ddarparwyd gennym yn ystod y cyfarfod. Mae'r wybodaeth wedi'i nodi yn yr atodiad sydd ynghlwm.

Hoffem ddiolch i'r Pwyllgor am ei waith craffu. Dull y Comisiwn yw ceisio gweithredu gyda didwylledd, tryloywder ac eglurder bob amser. Felly, os oes unrhyw beth arall y gallwn ei ddarparu i gynorthwyo'r Pwyllgor, cofiwch roi gwybod imi.

Yn gywir

Suzy Davies

cc Claire Clancy, Nia Morgan

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn • Tel: 0300 200 6528
Ffacs • Fax: 029 2089 8117
E-bost• Email: Sulafa.Thomas@cynulliad.cymru
Ysgrifenyddiaeth Comisiwn y Cynulliad/Assembly Commission Secretariat



Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

**Comisiwn y Cynulliad: Gwybodaeth ychwanegol yn dilyn ymddangosiad yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 19 Medi, 2016**

Mynd i'r afael â gofynion Trysorlys EM ar gyfer Symleiddio

Rydym yn croesawu menter Trysorlys Ei Mawrhydi i symleiddio'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, ond mae'n hanfodol bod y Comisiwn yn cadw cydbwysedd rhwng symleiddio a thryloywder.

Gwnaeth y Pwyllgor sylwadau ar ddiffyg symlrwydd y wybodaeth a nodir ar dudalen 85 o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015-16. Mae'r dudalen hon yn rhoi manylion ar ein niferoedd staff yn ôl categori, ac yn ôl rhyw, a band.

Mae'n ofynnol i ni, yn ôl Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys Ei Mawrhydi (FReM), ddarparu dadansoddiad o nifer y staff, gan wahaniaethu rhwng staff parhaol a staff eraill. Yn hanesyddol, er mwyn darparu eglurder, rydym wedi rhoi'r wybodaeth hon fel ffigwr cyfwerth ag amser llawn (FTE) ar gyfartaledd ar gyfer y flwyddyn a hefyd fel ffigur cyfwerth ag amser llawn ar ddiwedd y flwyddyn.

Byddwn yn ailedrych ar y wybodaeth hon ac yn ystyried a yw darparu'r ddau dabl yn cynorthwyo'r darllenydd i ddeall gweithgareddau'r Comisiwn.

Gwefan

Rydym yn casglu'r data canlynol ar gyfer gwefan y Cynulliad yn rheolaidd ac yn adrodd yn eu cylch:

- nifer yr ymwelwyr (defnyddwyr)
- nifer yr ymweliadau (sesiynau)
- nifer yr ymweliadau â thudalennau'r wefan

Drwy ein defnydd o Google Analytics mae gennym y gallu i archwilio ystod eang o wybodaeth am sut y mae ein gwefan yn cael ei defnyddio gan gynnwys pa rai o'n tudalennau sydd fwyaf poblogaidd a lleiaf poblogaidd, hyd yr amser y mae defnyddwyr yn ei dreulio ar ein gwefan a lleoliadau daearyddol ein defnyddwyr.

Caiff y wybodaeth hon ei monitro gan y Gwasanaeth Cyfathrebu ac fe'i defnyddir i roi arwydd o'r hyn y mae defnyddwyr ein gwefan â

diddordeb ynddo a pha rannau o'r safle sydd fwyaf poblogaidd, ac felly fe'i defnyddir i lywio'r gwaith o wella'r wefan.

Ymgysylltu ag ysgolion

Mae gan Raglen Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc y Cynulliad wefan benodol ar gyfer pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol, i roi gwybod iddynt am y Cynulliad a'i waith: http://www.dygynulliad.org/

Wedi'i sefydlu yn 2014, mae'r wefan yn galluogi pobl ifanc i gael gwybod mwy am fusnes y Cynulliad, i ymateb i ymgynghoriadau pwyllgorau ac ymgynghoriadau agored eraill, ac yn d     arparu llwyfan i bobl ifanc rannu eu profiadau eu hunain o faterion sy'n dod o dan gylch gwaith y Cynulliad.

Defnyddir y safle gan weithwyr proffesiynol yn y sector addysg ac ieuenctid gan ei bod yn cynnwys llawer o adnoddau a chyflwyniadau am waith y Cynulliad, wedi'i deilwra i weddu i gyfnodau allweddol yn y cwricwlwm. Mae'r rhain yn cynnwys llyfrynnau gwybodaeth a gweithgareddau i athrawon eu defnyddio i gefnogi addysg Bersonol a Chymdeithasol, pecyn ar gyfer cynghorau ysgolion a llawer o adnoddau rhyngweithiol i gynorthwyo dysgu.

Mae'r adnoddau sydd wedi'u hanelu at ysgolion uwchradd yn cynnwys y pecynnau canlynol:

- Eich Cynulliad - Deddfu yng Nghymru
- Eich llyfr gwaith y Cynulliad
- Creu cyfraith newydd
- Adroddiad ar Fy Ardal leol
- Pecyn ar gyfer Dadl: Diodydd egni
- Beth yw Cyfarfod Llawn y Cynulliad

Hefyd mae gennym Friffiau Her Cymeradwy y gall ysgolion eu dilyn fel rhan o Fagloriaeth Cymru Cyd-bwyllgor Addysg Cymru, sydd ar gael ar wefan y Cyd-bwyllgor.

Absenoldeb

Mae'r Comisiwn yn gweithio'n frwd ar gynlluniau i wella lefelau absenoldeb a lles ac iechyd meddwl staff.

Neilltuodd Bwrdd Rheoli y Comisiwn gyfarfod cyfan i absenoldeb oherwydd salwch ym mis Mehefin 2016 i fynd i'r afael â'r cynnydd yn ein cyfraddau absenoldeb, ac i gytuno ar strategaeth i reoli absenoldeb salwch yn y dyfodol. Bu aelodau'r Bwrdd yn ystyried papur a oedd yn cynnwys manylion am y rhesymau dros salwch tymor byr a salwch hirdymor, salwch fesul adran a'r rhesymau cyffredin dros absenoldeb. Cytunodd y Bwrdd Rheoli ar nifer o gamau gweithredu ac argymhellion o ran y ffordd orau i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn lefelau absenoldeb salwch.

Ers mis Mehefin mae'r ffigurau salwch wedi gwella ychydig, er nad ydym eto wedi gweld effaith y camau gweithredu a gymerwyd gennym:

| Mis | Dyddiau a gollwyd |
|---|---|
| Mehefin | 8.16 |
| Gorffennaf | 8.00 |
| Awst | 7.95 |

Ers mis Mehefin, mae Polisi Iechyd Meddwl wedi cael ei ddatblygu a bydd yn cael ei lansio yn ystod yr Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl benodol rhwng 10 a 14 Hydref. Trefnwyd digwyddiadau yn ystod yr wythnos i godi ymwybyddiaeth ac i gefnogi ein gweithwyr a'n rheolwyr. Un o nodweddion yr wythnos yw y byddwn yn gweld Claire Clancy a Joyce Watson ill dwy yn llofnodi'r addewid Amser i Newid.

Mae'r wythnos yn rhan o bythefnos o ddigwyddiadau a ddatblygwyd gan yr Adran Adnoddau Dynol yn bwrpasol ar gyfer gwella iechyd a lles. Mae'r Wythnos Cydbwysedd Bywyd a Gwaith hefyd yn cael ei chynnal rhwng 3 a 7 Hydref, a bydd cyngor ar gael ar gyfer gweithwyr a rheolwyr am y ffordd orau i reoli eu bywyd gwaith a'u bywyd cartref er mwyn gwella eu lles a'u ffordd o fyw.

Mae gwaith hefyd wedi digwydd ar ddatblygu gwell dull rheolaeth systemau a gwell gallu ar gyfer rheolwyr. Absenoldeb yw canolbwynt y trafodaethau Partner Busnes Adnoddau Dynol, ac mae data absenoldeb a chyflwyno adroddiadau wedi cael eu gwella i ddangos yn glir sut y mae pob adran yn cymharu â'r meincnod ac â'n targed yn y sefydliad.

Mae hyfforddiant ar bwysigrwydd rheoli absenoldeb yn y Cynulliad a'r camau sydd ar gael i fynd i'r afael ag absenoldeb oherwydd salwch hefyd yn mynd rhagddo gyda meysydd gwasanaeth.

<u>Cyfnod talu'n ôl y Cynllun Ymadael Gwirfoddol a'i archwilio</u>

O ran y cwestiwn ar gyfnod talu'n ôl y Cynllun Ymadael Gwirfoddol (VES), cost y cynllun oedd £660,000 gydag uchafswm arbediad blynyddol a ragwelir o £484,000. Byddai hyn yn golygu cyfnod talu'n ôl o 1.4 mlynedd neu 16 mis.

Roedd Pennaeth Archwilio Mewnol y Comisiwn yn ymwneud â'r gwaith drwy gydol y broses. Byddai yn arsylwi mewn cyfarfodydd ym mhob cam o'r broses ac roedd yn gweld pob papur a gwybodaeth berthnasol.

Mae wedi cynnal adolygiad sicrwydd o'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol 2015/16 ac mae ei adroddiad terfynol yn datgan bod y cynllun wedi ystyried argymhellion adroddiadau archwilio mewnol blaenorol, ac argymhellion a nodwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei adroddiad ar Reoli Ymadawiadau Cynnar a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2015.

Roedd yr Adolygiad Sicrwydd yn dod i'r casgliad bod trefniadau llywodraethu priodol a chymesur yn perthyn i'r cynllun. Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol hefyd yn cynghori y dylai'r Comisiwn ailasesu llwyddiant neu fethiant y Cynllun yn barhaus ac ystyried ei effaith ar arbedion effeithlonrwydd ac ariannol yn y dyfodol. Mae'r Comisiwn yn derbyn bod angen ei adolygu'n rheolaidd a bydd y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau yn cael adroddiad pellach gan yr Adran Adnoddau Dynol yn amlinellu gwersi a ddysgwyd yn sgîl y cynllun hwn.

<u>Adrodd am berfformiad</u>

Cyfarfu'r Comisiwn ar 19 Medi i drafod fformat ac amlder yr Adroddiad Perfformiad Corfforaethol. Byddwn yn paratoi gwybodaeth am

berfformiad, gan gynnwys gwybodaeth am Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ddwywaith y flwyddyn, a byddwn yn parhau i wneud hynny yn 2016-17. Mae fformat y wybodaeth am berfformiad wedi ei newid a bydd yr adroddiad ar gyfer y cyfnod o chwe mis hyd at 30 Medi 2016 yn cyflwyno'r wybodaeth mewn cynllun diwygiedig. Mae fersiwn ddrafft o'r Adroddiad Perfformiad ar y fformat newydd wedi'i atodi, er gwybodaeth. Sylwch, mae hwn yn cynnwys gwybodaeth "ffug" o ran ffigurau 2016-17.

Mae'r Adroddiad Perfformiad ar gyfer y cyfnod o ddeuddeg mis hyd at 31 Mawrth 2016 bellach wedi'i gyhoeddi ac mae hwn hefyd wedi'i atodi i'r llythyr hwn.

Buddsoddi i arbed / Targed o ran Arbedion

Cynyddodd y targed Gwerth am Arian dros gyfnod y Pedwerydd Cynulliad, o £350,000 yn 2011-12 i £500,000 y flwyddyn. Fel gyda phob un o'n targedau Dangosyddion Perfformiad Allweddol, rydym yn ceisio sicrhau eu bod yn ymestynnol ac yn berthnasol i gyflawni ein nodau strategol.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gwelwyd newid o ran pwyslais ar gyfer y targed Gwerth am Arian, gyda'r nod o gyflawni mwy o arbedion ar wahân i arbedion o ran staff (fel, ar gontractau), ac arbedion mwy cylchol (fel ein bod yn parhau i elwa o gostau is yn y dyfodol er ein bod ond yn cyfrif yr arbediad unwaith ar gyfer ein targed). Byddwn yn parhau i anelu at gyflawni arbedion cylchol dros y blynyddoedd sydd i ddod drwy adnewyddu contractau, a hefyd drwy fentrau eraill fel y gwaith trawsnewid, fel rhan o FySenedd.

Yn ddiweddar rydym wedi cwblhau adolygiad llawn o ddull gweithredu'r Comisiwn o ran effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd sefydliadol. Gofynnwyd am yr adolygiad hwn gan ein Swyddog Cyfrifyddu, ac ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ACARAC). Mae'r adroddiad yn cyflwyno darlun cynhwysfawr, a gobeithiwn ei fod yn fodel o arfer da ar gyfer y sector cyhoeddus. Mae copi ynghlwm, er gwybodaeth i'r Pwyllgor.

Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd Sefydliadol

# Adolygiad o ddull gweithredu Comisiwn y Cynulliad

Medi 2016

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys ar ffurf Braille, fersiwn hawdd ei darllen, fersiwn print bras, fersiwn sain a chopi caled drwy gysylltu â ni:


**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ar-lein: **www.cynulliad.cymru**
E-bost: **cysylltu@cynulliad.cymru**
Ffôn: **0300 200 6565**


Rydym yn croesawu galwadau a wneir drwy wasanaeth Text Relay.


**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd Sefydliadol

# Adolygiad o ddull gweithredu Comisiwn y Cynulliad

Medi 2016

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

# Cynnwys


Cyflwyniad ... 1

Diben ... 2

Cefndir ... 3

Effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ... 4

Beth yw'r dystiolaeth o'r Adolygiad? ... 7

Arbedion Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd a gyflawnwyd hyd yma ... 14

Astudiaethau achos manwl ... 15

Mesurau perfformiad allweddol ... 21

Crynodeb o'n Perfformiad – mis Medi 2015 tan fis Mawrth 2016 ... 22

Crynodeb o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ... 24

Ymgynghori ac Adborth ar ein Perfformiad ... 26

# Strategaeth Comisiwn y Cynulliad 2016–2021

Un o'n tasgau cyntaf fel Comisiwn newydd oedd cytuno ar ein strategaeth newydd. Amlinellir ein pwrpas cyffredinol a'n nodau strategol isod.

**Ein diben**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae Comisiwn y Cynulliad yn gwasanaethu'r Cynulliad Cenedlaethol i hwyluso ei lwyddiant yn yr hirdymor fel sefydliad democrataidd cryf, hygyrch, cynhwysol a blaengar a deddfwrfa sy'n gweithredu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

**Ein nodau strategol**
– Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf.
– Ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad.
– Defnyddio adnoddau'n ddoeth.



# Cyflwyniad

# Diben

Fel sefydliad a ariennir gan y cyhoedd, rhaid i Gomisiwn y Cynulliad ddangos yn gyson ei fod yn defnyddio ei adnoddau yn effeithlon ac effeithiol. Rydym yn cydnabod bod pwysau parhaus ar gyllid ar draws y sector cyhoeddus, a bod llawer o sefydliadau yn gweld gostyngiadau yn eu cyllideb o'r naill flwyddyn i'r llall, sy'n aml yn arwain at doriadau i wasanaethau, a all, mewn gwirionedd, arwain at lefel effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd is. Fodd bynnag, mae o'r pwys mwyaf i ni yn y Comisiwn ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaethau rhagorol i Aelodau'r Cynulliad, er mwyn iddynt allu ymgymryd â'u rôl etholedig i graffu'n effeithiol ar Lywodraeth Cymru, i ddeddfu'n dda ar gyfer Cymru ac i gynrychioli pobl Cymru.

Mae Prif Weithredwr a Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn ill dau wedi galw am adolygiad o'n dull gweithredu o ran effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a gwerth am arian ac mae'r adroddiad hwn yn nodi canlyniadau'r adolygiad hwnnw. Amcanion yr adolygiad oedd amlygu'r amrywiaeth o weithgareddau yr ymgymerir â hwy, darparu tystiolaeth o effeithiolrwydd y gwaith hwn, disgrifio ein trefniadau ar gyfer sicrhau bod ffocws priodol o ran ein trefniadau rheoli ac i ddangos ein bod yn parhau i nodi a gwneud yn fawr o gyfleoedd i fod hyd yn oed yn well.

# Cefndir

Gan edrych i'r dyfodol, rydym yn wynebu'r realiti o fwy o lwyth gwaith ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn ystod y Pumed Cynulliad. Mae'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru, y cyfrifoldebau newydd sy'n deillio yn sgîl Deddf Cymru 2014, gan gynnwys pwerau datganoledig ar gyllid, a'r disgwyliad y bydd Bil Cymru drafft diwygiedig, pan gaiff ei gymeradwyo, yn trosglwyddo rhagor o bwerau i'r Cynulliad. Mae goblygiadau mawr i Gymru yn sgîl canlyniadau'r bleidlais yn Refferendwm yr UE ac, er ei bod yn rhy gynnar i ddeall gydag eglurder manwl yr hyn y gall y goblygiadau hyn fod, mae'n amlwg y bydd angen i Aelodau'r Cynulliad wneud cyfraniad sylweddol at y drafodaeth ar y broses ymadael ac at y gwaith dilynol ar ddeddfwriaeth newydd, i sefydlu Cymru a'r DU mewn byd ar ôl yr UE.  Bydd hyn yn ychwanegu llwyth gwaith sylweddol pellach ar y 60 o Aelodau'r Cynulliad. Gyda'r cefndir hwn, bydd angen i'r Comisiwn adolygu ei drefniadau presennol ar gyfer darparu gwasanaethau i gefnogi'r Aelodau, a bydd angen ffyrdd newydd o weithio sydd mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

Rhaid i'n rhanddeiliaid fod yn sicr ein bod wedi ymrwymo i wneud y defnydd gorau o werth y cronfeydd cyhoeddus a gawn, drwy ein dulliau o reoli'r cyllidebau, yr adnoddau, y buddsoddiadau a'r gwasanaethau a ddarparwn. Mae'r rhanddeiliaid hyn yn cynnwys: Comisiwn y Cynulliad, ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ACARAC), Pwyllgor Cyllid a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad, y Cynulliad Cenedlaethol, y cyhoedd a'r cyfryngau yng Nghymru, ac nid y lleiaf, ni ein hunain fel y darparwyr gwasanaethau. Nid yw darparu her i gynyddu effeithlonrwydd ymhellach eto ac i ddarparu camau gwelliant yn rhywbeth newydd i ni, rydym yn gwneud hyn yn rheolaidd yn y gwasanaethau, yn y Bwrdd Rheoli, yn y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau, yn y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac yn y Comisiwn. Rydym yn sicrhau effeithlonrwydd o ran y ffordd y byddwn yn gyson yn gwella gwasanaethau i'r Aelodau ac yn enwedig sut rydym yn teilwra'r gwasanaethau hynny o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Ym mis Mawrth 2015, daeth adroddiad archwilio mewnol ar 'Werth am Arian' i'r casgliad bod Comisiwn y Cynulliad â diwylliant Gwerth am Arian sydd wedi'i datblygu'n dda a bod y diwylliant hwn wedi'i sefydlu ledled y sefydliad.

O ran ein dull o weithredu, rhaid i ni beidio â cholli golwg ar ddiben ein sefydliad a'r hyn sydd o bwys diwylliannol a strategol. Gallai rhai o'r pethau yr ydym yn eu gwneud a'r ffyrdd rydym yn eu gwneud gael eu hystyried yn weithgareddau dymunol yn hytrach nag yn weithgareddau hanfodol o'u cymharu â'r sector cyhoeddus yn ehangach neu'r sector preifat. Fodd bynnag, mae bod yn sefydliad dwyieithog, a chefnogi amrywiaeth, cael polisïau ar waith sy'n gyfeillgar i deuluoedd, rhoi hyfforddiant a chyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol rhagorol, secondiadau a seibiannau gyrfa, gan sicrhau cydnabyddiaeth allanol fel y Wobr Aur Buddsoddwyr mewn Pobl a chael cyfnodau toriad i gydbwyso'r pwysau yn ystod y tymor, i gyd yn ganolog i ddiwylliant y Comisiwn a'i ffyrdd o weithio. Byddai lleihau neu ddod â'r rhain i ben yn cael effaith cost uniongyrchol, effaith weithredol ac effaith strategol. Nid yw hyn yn golygu bod y pethau hyn wedi'u heithrio o'r ffocws ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, yn hytrach, ni ddylent gael eu hystyried yn ddewisiadau hawdd ar gyfer gwneud arbedion.

# Effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd

Er mwyn dangos effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, rhaid i ni fod yn glir ynghylch yr hyn y mae'r termau hyn yn ei olygu i ni:

## Effeithlonrwydd

Ystyr effeithlon yw darparu'r gwasanaethau hyn gyda'r adnoddau angenrheidiol lleiaf, gan nodi a dileu prosesau gwastraffus, mynd i'r afael â datrys tanberfformio a herio o ran yr hyn yr ydym yn talu amdano.

## Effeithiolrwydd

Mae effeithiol yn golygu canolbwyntio ar ein nodau a'n blaenoriaethau, a gweithio yn y ffyrdd gorau posibl i ddarparu'r gwasanaethau rhagorol sy'n ofynnol gan y Cynulliad a'i Aelodau.

## Amcanion arweiniol

Rydym wedi llunio nifer o amcanion arweiniol i roi sicrwydd ein bod yn rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol ac yn effeithlon yn ein gwaith beunyddiol yn ogystal ag wrth wneud newidiadau i'r sefydliad.

- herio ein hunain a'n cyflenwyr yn barhaus er mwyn cynyddu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ac i fesur gwelliant ac i adrodd ar hynny;
- darparu tystiolaeth glir ein bod yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol a'n bod yn iawn i ddefnyddio'r gyllideb a ddyrannwyd inni yn y modd y gwnawn;
- sicrhau bod popeth a wnawn yn gyson â Strategaeth y Comisiwn, ei nodau a'i flaenoriaethau, yn ateb y diben ac yn ffrwyth asesiad o'r costau o gymharu â'r buddion;
- cynnig ein hunain ar gyfer archwiliadau mewnol ac allanol a bod yn glir ac yn agored am ein cynlluniau a'n llwyddiannau; a
- chasglu enghreifftiau o arfer da, ystyried yr hyn sy'n eu gwneud felly, a sicrhau bod yr arfer da hwn yn cael ei fabwysiadu. Yn yr un modd, lle nad yw pethau'n mynd yn dda, byddwn yn dangos beth rydym wedi'i ddysgu a'i wneud, rhag bod yr un peth yn digwydd eto.

## Manteision symud ymlaen â'r gwaith hwn

Rydym yn cydnabod y manteision canlynol o barhau i nodi a gweithredu cyfleoedd i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y sefydliad:

- Er mwyn cryfhau ein gallu i wynebu heriau'r dyfodol - bydd yr ymrwymiad i welliant parhaus yn sicrhau bod y Cynulliad yn y sefyllfa orau bosibl i gyflawni newid i ddiwallu anghenion y dyfodol.
- Canfyddiad cadarnhaol y cyhoedd – bydd ymrwymiad y Cynulliad i adolygu a gwella yn darparu cyfleoedd i wella canfyddiad y cyhoedd o'r Cynulliad ymhellach.
- Sicrwydd o Strategaeth y Comisiwn - disgwyliwn y bydd ffocws o'r newydd gan yr Aelodau, gan y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a rhanddeiliaid allanol ar gostau ac effeithlonrwydd y Comisiwn, wrth i'r pwysau ar gyllid cyhoeddus yn parhau. Bydd nodi rhaglenni gwaith sy'n sicrhau gwell effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn fodd i roi'r sicrwydd hwn.

- Gweithio corfforaethol doethach – Bydd datblygu ymhellach ein gwaith o gynllunio gwasanaethau a gallu, a rheoli perfformiad yn well, ynghyd â chynnal adolygiadau thematig y cytunwyd arnynt, yn gwella sut rydym yn gweithio yn awr a sut y byddwn yn paratoi ar gyfer y dyfodol.
- Gwell perfformiad sefydliadol – bydd gwasanaethau ac iddynt ffocws, ac sydd wedi'u teilwra, sy'n cyflawni yn ôl cyllidebau a thargedau, a gaiff eu harwain yn ôl cynlluniau effeithlon ar gyfer gwasanaethau ac adnoddau, o dan fframwaith gwelliant parhaus yn hwyluso gwelliant ym mherfformiad y Cynulliad.

## Ein Cwmpas a'n Dull

Nid yw'r cwmpas ar gyfer gwneud gwelliannau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn gyfyngedig i unrhyw wasanaeth, swyddogaeth na phroses benodol, ac felly mae'r gwelliannau hyn yn gyffredin ledled y Cynulliad.

Bydd ein dull gweithredu yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod pob menter newid newydd yn cael ei darparu ar sail asesiad cost / budd, fod ein hadolygiadau cynllunio gwasanaethau a gallu yn bwrw ymlaen ar sail manteisio i'r eithaf ar ein hadnoddau i gyflawni strategaeth ac amcanion y Comisiwn, ac ein bod yn herio ein hunain yn gyson i ddangos gwerth am arian.

# Buddsoddwyr mewn Pobl

**"Mae'r gwaith y mae staff Comisiwn y Cynulliad yn ei wneud yn werthfawr dros ben i ni fel Aelodau Cynulliad. Maen nhw ein galluogi i wneud gwaith democrataidd y Cynulliad, cynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, deddfu ar gyfer Cymru a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.**

**Mae'r wobr safon aur Buddsoddwyr mewn Pobl yn dangos bod y Cynulliad yn llwyddo o ran buddsoddi yn ei staff. Bydd yr ymrwymiad hwn yn parhau wrth i ni geisio gwella gwasanaethau seneddol sydd eisoes yn rhai rhagorol."**

Elin Jones AC, y Llywydd

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur



# Beth yw'r dystiolaeth o'r Adolygiad?

Mae'r enghreifftiau sy'n dilyn oll yn dangos sefydliad sy'n cael ei reoli'n dda ac yn effeithlon yn ei ddefnydd o adnoddau. Mae'r dystiolaeth hon yn dangos hefyd nad ydym yn fodlon llaesu dwylo o ran y gwaith da yr ydym wedi'i wneud. Mae'n dangos, yn hytrach, ein bod wedi ymrwymo i weld rhagor o welliant.

## Adroddiad Etifeddiaeth y Comisiwn 2011-2016 'Llwyfan i Gryfder.'

Mae Adroddiad Etifeddiaeth Comisiwn y Pedwerydd Cynulliad yn cynnwys 13 o argymhellion i'r Comisiwn sy'n ei olynu. Mae'r argymhellion hyn yn eang ac yn cynnwys cynigion ar gyfer gwella Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer Aelodau, rôl y Comisiwn fel bwrdd llywodraethol sy'n 'perfformio'n dda', yr angen i barhau i fanteisio ar dechnoleg gwybodaeth i ddarparu gwasanaethau rhagorol i Aelodau a phobl Cymru a'r angen i sicrhau bod adnoddau ar gael i ddarparu'r gefnogaeth angenrheidiol i Aelodau'r Cynulliad mewn byd cyfansoddiadol sy'n newid. Mater i'r Comisiwn newydd yw penderfynu pa rai o'r argymhellion hyn sy'n cael eu gweithredu, os o gwbl; byddwn ni, fodd bynnag, yn sicrhau y gall y Comisiynwyr gael gafael ar gyngor ar y manteision disgwyliedig sy'n deillio, a'r gofynion ar gyfer cyflwyno unrhyw newidiadau.

## Argymhellion Etifeddiaeth gan y Pwyllgor Busnes a'r Cadeiryddion Pwyllgorau Presennol.

Mae un o'r penderfyniadau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd mwyaf arwyddocaol i'r Cynulliad newydd ei wneud yn ymwneud â dyluniad y system bwyllgorau - faint o bwyllgorau, wythnos waith y pwyllgorau, beth fydd portffolios y pwyllgorau a sut y caiff deddfwriaeth ei thrin. Rydym wedi darparu cyngor a thystiolaeth, gan gynnwys adroddiad gan gadeiryddion y pwyllgorau sydd wedi dod i ben, i'r Llywydd newydd, i'r Comisiynwyr a'r Pwyllgor Busnes, gyda gwneud y defnydd gorau o'n gallu yn thema flaenllaw. Cyflwynodd y Pwyllgor Busnes, ar ôl ystyried y rhaglen ddeddfwriaethol sydd ar ddod ac i ddarparu capasiti ar gyfer craffu ar y trefniadau i adael yr Undeb Ewropeaidd, gynigion i sefydlu strwythur pwyllgorau ac wythnos waith newydd ar gyfer y Pumed Cynulliad, i sefydlu saith pwyllgor polisi a phwyllgor deddfwriaethol, ynghyd â threfn newydd i ethol cadeiryddion pwyllgorau. Cytunwyd ar y newidiadau hyn yn y Cyfarfod Llawn.

## Buddsoddwyr mewn Pobl

Roeddem yn falch iawn i glywed, ym Mehefin 2016, ein bod wedi ennill Safon Aur y wobr Buddsoddwyr mewn Pobl (BmP) am y trydydd tro.

Buddsoddwyr mewn Pobl yw prif safon gwella busnes rheoli pobl y DU. Mae'n cael ei defnyddio gan ddegau o filoedd o bobl mewn sefydliadau mewn mwy na 50 o wledydd. Mae'n galluogi sefydliadau i feincnodi eu hunain yn erbyn rhai o'r cyflogwyr gorau yn y byd, a dim ond llond llaw sy'n ennill y wobr aur.

Nododd yr adroddiad Buddsoddwyr mewn Pobl fod cryfderau'r Cynulliad Cenedlaethol yn cynnwys:

- Eglurder o ran pwrpas, gweledigaeth ac amcanion, sydd wedi cael ei gyfleu'n effeithiol ar draws y sefydliad cyfan.

- Dealltwriaeth ardderchog o "gwsmeriaid" allweddol y sefydliad a'r gymuned ehangach fel ei gilydd, a dealltwriaeth o'u hanghenion, a hynny gan ddarparu gwasanaethau allweddol sy'n bodloni'r anghenion hynny'n rhagorol ac mewn modd cost-effeithiol.
- Ymrwymiad pendant gan bawb yn y sefydliad i gyflawni nodau a blaenoriaethau allweddol y sefydliad.
- Arweinyddiaeth gref o'r brig, sy'n nodi sut y bydd y dirwedd a'r amgylchedd y mae'r sefydliad yn gweithredu ynddo yn newid, a goblygiadau newidiadau o'r fath ar gyfer y sefydliad ei hun.
- Ethos y mae pobl ar draws y sefydliad yn unieithu ag ef, lle y maent yn deall ac yn ymddwyn yn gyson â'r Gwerthoedd sy'n cefnogi'r diwylliant hwn.
- Ymdeimlad gan y rhan fwyaf o bobl bod perfformio'n dda iawn a gweithio'n galed yn cael ei gydnabod gan y sefydliad.
- Ffordd o weithio lle y caiff gwaith tîm a chydweithio ei annog a lle y mae'n gyffredin, a lle y mae pobl yn ymdrechu i weithio'n effeithiol ar draws adrannau gwahanol.
- Penderfynoldeb i wella ac i sicrhau bod y sefydliad yn parhau i fynd o nerth i nerth yn y dyfodol.

## FySenedd a'r Adolygiad o Gofnod y Trafodion

Nod y ddwy fenter hyn yw gwella'r Cynulliad fel 'Senedd wirioneddol Ddigidol'. Uchelgais FySenedd yw trawsnewid gwasanaethau Busnes y Cynulliad gan ganolbwyntio ar drefnu a defnyddio gwybodaeth yn llawer gwell, a dylai personoli gwasanaethau i Aelodau alluogi iddynt ddefnyddio amser yn fwy effeithiol a gweithredu mewn ffordd fwy effeithlon, ac effeithiol. Ein nod, dros gyfnod y Pumed Cynulliad a thu hwnt, yw sicrhau gwelliant parhaus o ran darparu gwasanaethau, a gefnogir gan waith i ddatblygu a chyflwyno atebion TG hyblyg.

Y bwriad, o gynnal yr Adolygiad o Gofnod y Trafodion oedd edrych yn fanwl ar gyfleoedd newydd ar gyfer ein dull o adrodd ar drafodion, gan gynnwys sut y gellid ei ddefnyddio i gynyddu ymgysylltiad a dealltwriaeth o waith y Cynulliad. Mae'r adolygiad bellach wedi'i gwblhau a chyflwynwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y dadansoddiad ohono, a'r argymhellion cychwynnol, i'r Comisiwn ym mis Awst 2015. O safbwynt effeithlonrwydd, roedd gan y Comisiynwyr ddiddordeb arbennig mewn gweld sut y mae staff yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gwrdd â'r galw amrywiol. Cytunodd y Comisiwn ar yr argymhellion canlynol gan yr Adolygiad:

- Cyhoeddi drafft Cofnod y Trafodion yn gynharach (a hynny'n weithredol o ddechrau'r Pumed Cynulliad);
- Dod â dyddiad cyhoeddi'r fersiwn cwbl ddwyieithog ymlaen, a hynny'n weithredol o ddechrau'r Pumed Cynulliad, ac archwilio opsiynau'r farchnad ar gyfer darparu hyn; ac
- Edrych yn fanylach ar opsiwn newydd o ran TG, gan gynnwys addasu systemau a ddefnyddir yn llwyddiannus eisoes mewn mannau eraill.

## Cynllunio Senarios;

Yn y Comisiwn, rydym wedi ffurfio Grŵp Senarios i weithio drwy'r prif agweddau ar newid rydym yn debygol o'u hwynebu yn gynnar yn y Pumed Cynulliad, er mwyn rhoi sicrwydd ychwanegol bod y gwahanol linynnau o'r rhaglen Trosglwyddo i'r Pumed Cynulliad wedi cwmpasu popeth. Enghreifftiau o'r materion a ystyriwyd gan y Grŵp Senarios oedd ymestyn yr wythnos waith, lleihau hyd toriadau, ailgynllunio ein system bwyllgorau yn sylfaenol, gwneuthuriad gwleidyddol y Cynulliad nesaf, dyfodiad

pumed plaid wleidyddol a goblygiadau Llywydd a Chomisiwn newydd. Mae pob un o'r elfennau hyn yn cyffwrdd, mewn rhyw ffordd, â gallu Aelodau i wneud eu gwaith ac felly mae uwch staff a'u timau wedi bod yn meddwl am y goblygiadau ymarferol, o ran y gefnogaeth a ddarparwn a sut y gellir sicrhau ei bod mor gydnaws ag y gall fod ag anghenion yr Aelodau.

## Cynllunio a Rheoli Adnoddau

Rydym wedi gweithio i sefydlu 'llinyn' cynllunio sy'n rhedeg o strategaeth a nodau'r Comisiwn, drwy ein blaenoriaethau corfforaethol ac i'n gwaith o gynllunio gwasanaethau a chapasiti. Rydym hefyd wedi datblygu fframwaith sicrwydd, yr ydym yn ei ddefnyddio i sicrhau bod gennym dystiolaeth o gynllunio ac o wneud penderfyniadau effeithiol. Mae'r Bwrdd Rheoli yn gyfrifol am sicrhau bod aliniad â'n strategaeth a'n blaenoriaethau yn gyson, a'r Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau (IRB) sy'n gyfrifol am benderfyniadau ar fuddsoddi ac adnoddau staffio ac am oruchwylio cyllideb y Comisiwn.

Un o'r gwelliannau sylweddol a wnaed yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf fu datblygu cynlluniau buddsoddi tymor canolig i'r hirdymor o ran ystadau a chyfleusterau'r Cynulliad ac ar gyfer TGCh. Mae amserlen o ddeng mlynedd ar gyfer y cyntaf, ac mae'n ein galluogi ni i asesu'r angen am fuddsoddi mewn cynnal a chadw'r ystâd mewn cyd-destun strategol. Mae amserlen o dair blynedd i'r cynllun TGCh, sy'n adlewyrchu cyflymder y newid o ran technoleg. Mae'r gronfa fuddsoddi TGCh y mae'r cynllun hwn yn deillio ohono wedi'i sefydlu o arbedion yn sgîl darparu gwasanaethau TGCh y Cynulliad yn fewnol. Mae'r ddau gynllun yn seiliedig ar 'ddim-cyllideb', a chaiff achosion busnes ar gyfer buddsoddiad eu pennu gan y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau ac, mewn achosion lle byddai awdurdod dirprwyedig y Swyddog Cyfrifyddu yn uwch, gan Gomisiwn y Cynulliad.

Byddwn yn parhau i reoli ein hadnoddau gan ddefnyddio'r prosesau hyn a bydd gweithgareddau arwyddocaol yn 2016 yn sicrhau bod y defnydd o adnoddau yn cyd-fynd â chyfeiriad strategol y Comisiwn newydd, ac i sicrhau ein bod yn cyflawni gwelliannau o ran effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yn dilyn y cynllun ymadael gwirfoddol diwethaf.

## Adolygiadau o Wasanaethau

Mae gennym hanes rhagorol o ymateb yn hyblyg i newidiadau o ran angen drwy addasu ffocws, cyfluniad a gallu ein gwasanaethau. Mae enghreifftiau yn cynnwys: ailstrwythuro'r Gyfarwyddiaeth Busnes y Cynulliad, sydd wedi gwella'r gefnogaeth i bwyllgorau yn sylweddol - a gydnabyddir erbyn hyn fel gwasanaeth o'r radd flaenaf, yn wir, ac mae'r Cyfarfod Llawn wedi creu timau cymorth integredig i deilwra gwasanaethau; darparu gwasanaethau TGCh y Cynulliad yn fewnol; a'r adolygiad presennol o Wasanaeth Diogelwch y Cynulliad i sicrhau ei fod yn addas at y diben mewn byd lle y mae'r bygythiad o ymosodiad terfysgol wedi cynyddu. Gan edrych ymlaen, byddwn yn sicrhau bod canlyniadau gofynnol yn dilyn unrhyw adolygiad o wasanaeth yn cael eu datgan yn glir, byddwn yn nodi manteision - yn fanteision diriaethol a manteision anniriaethol, a byddwn yn adrodd ar yr hyn a gyflawnwyd gan yr adolygiad.

## Caffael

Rydym wedi sicrhau arbedion sylweddol drwy ein rheolaeth effeithiol ar gaffael, ac mae'r rhain wedi'u nodi yn ein dau Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Cyfrifon blaenorol. Mae trosglwyddo'r contract TGCh a'r system ffôn newydd yn enghreifftiau arwyddocaol yn hyn o beth. Caiff y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau adroddiad chwarterol gan y Pennaeth Caffael a bydd y Bwrdd hwnnw'n rheoli portffolio contractau y Comisiwn.

Rydym yn ystyried fframwaith contract y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol fel cyfrwng da i gyflawni gwerth yn y broses o gaffael nwyddau fel deunydd ysgrifennu ac offer TGCh ac rydym yn gweithio gyda rheolwyr y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol pan fydd gennym ofynion mwy 'pwrpasol', fel gwasanaethau cyfieithu, i benderfynu a all yr anghenion penodol hyn gael eu darparu heb golli safon y gwasanaeth. Y prif ffocws ar gyfer eleni yw adnewyddu'r contract arlwyo, gan sicrhau bod telerau'r contract newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyflenwr a ddewisir weithio gyda ni i ddarparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol. Mae'r mentrau caffael eraill eleni yn cynnwys symud ymlaen i gyflwyno cerdyn caffael newydd, mabwysiadu gwasanaeth teithio'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a gweithio gyda gwasanaethau i fanteisio ar gyfleoedd wrth iddynt godi.

## Archwilio Mewnol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Mae gennym raglen hynod effeithiol o archwilio mewnol sy'n cael ei chymhwyso ar draws y sefydliad, a thrwyddi rydym yn ychwanegu at y cyfrifoldebau archwilio statudol â'n gofynion ein hunain. Mae gwaith diweddar o'r math hwn yn cynnwys comisiynu adroddiad "gwersi a ddysgwyd" yn dilyn cyfnod pontio'r rhaglen Adnoddau Dynol / Cyflogres, adroddiad ar effeithiolrwydd ein gweithgarwch ymgysylltu, gwaith cyfredol sy'n edrych ar ein gwasanaethau cyfieithu ac effeithiolrwydd y Bwrdd Taliadau.

Rydym yn ffodus i gael Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg annibynnol sy'n cynnwys unigolion profiadol iawn sydd â phrofiad yn y sector cyhoeddus a phreifat. Yn ogystal â'i gyfrifoldebau archwilio a sicrwydd, mae'r pwyllgor yn cymryd diddordeb gweithredol yn rheolaeth y Comisiwn ac mae'n frwdfrydig ynghylch ein gwaith ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r broses archwilio mewnol fel cyfle i adolygu ac i wneud argymhellion ar gyfer gwella. Yn yr un modd, byddwn yn ymgysylltu â'n Pwyllgor Archwilio i ddarparu her a sicrwydd o ran ein gwaith gwella.

## Dadansoddi Busnes

Mae tîm Dadansoddi Busnes bach yn gweithio ar draws y Comisiwn i helpu i nodi cyfleoedd ar gyfer gwelliant o ran effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwasanaeth ac i sicrhau bod systemau gwybodaeth yn parhau i gwrdd ag anghenion yr Aelodau, staff a phobl Cymru. Mae'r tîm wedi gwneud gwaith sylweddol mewn nifer o feysydd allweddol ar draws y Comisiwn. Nodir uchod y dadansoddiad o'n dulliau Cofnodi Trafodion y Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau i gefnogi'r Adolygiad o Gofnod y Trafodion. Mae ein dadansoddiad o sut rydym yn rheoli gwybodaeth ein cwsmeriaid a sut rydym yn rheoli gwasanaethau cwsmeriaid yn llywio'r rhaglen FySenedd. Nod y gwaith dadansoddi parhaus o'n prosesau recriwtio a'r ffyrdd yr ydym yn ymgysylltu â phobl ifanc ar hyn o bryd yw darparu manteision o ran effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Mae gwaith dadansoddi o ran canfod a dogfennu gofynion busnes ar gyfer atebion TGCh yn sicrhau bod gweithrediadau technoleg yn diwallu anghenion busnes, gan felly wneud yn fawr o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd prosesau busnes. Dros y 12 mis diwethaf, mae'r tîm wedi darparu, neu mae yn y broses o ddarparu, gofynion busnes ar gyfer y system cefnogaeth i'r Cyfarfod Llawn, y system Cyllid, system ymholiadau'r Gwasanaeth Ymchwil, y system rheoli gwaith achos Aelodau, y system trawsgrifio a golygu Cofnod y Trafodion a'r system rheoli'r Llyfrgell.

## Adolygu Cyfarwyddiaethau

Mae'r Gyfarwyddiaeth Adnoddau yn cynnal adolygiad o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gyda'r nod o nodi cyfleoedd i sicrhau gwelliannau i ffyrdd cyfredol o weithio. Yr amcanion ar gyfer yr adolygiad hwn yw:

– Adolygu ystod lawn a chwmpas yr holl wasanaethau a ddarperir gan y Gyfarwyddiaeth, gan ystyried y swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir o ran a ydynt yn parhau'n ddilys, a'r cyfleoedd i gynyddu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (y naill neu'r llall neu'r ddwy elfen).

– Sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio i gyflawni Amcanion Corfforaethol a Blaenoriaethau Strategol mewn modd effeithlon ac effeithiol;

– Nodi unrhyw gyfleoedd neu gyfyngiadau ar draws gwahanol feysydd;

– Nodi unrhyw feysydd posibl ar gyfer cynhyrchu incwm; a

– gwneud argymhellion o ran cynlluniau gwelliannau busnes..

Mae'r Gyfarwyddiaeth Adnoddau wedi bodoli yn ei ffurf bresennol ers ychydig dros 12 mis ac yn ystod y cyfnod hwn bu rhai newidiadau arwyddocaol o ran swyddogaethau a staffio. Mae tîm rheoli'r Gyfarwyddiaeth wedi cynnal cyfres o weithdai i gytuno ar ddibenion a blaenoriaethau ac rydym wedi gwrando'n ofalus ar weddill y sefydliad ynghylch pa wasanaethau y mae angen iddynt gael eu darparu a sut. Mae hyn oll wedi cyfrannu at yr adolygiad a gaiff ei gynnal yn awr. Ar hyn o bryd, mae'r Penaethiaid Gwasanaeth yn asesu'r swyddogaethau hynny a nodwyd fel rhai a allai gael eu gwella. Bydd yr asesiad hwn yn mynd i'r afael â'r achos dros newid, y manteision sydd i'w cael, effaith y cam o gyflwyno'r newid a hefyd yn nodi'r gyfradd blaenoriaeth. Yna byddwn yn llunio cynnig cyffredinol i weddill y sefydliad, ar gyfer cael eu sylwadau, eu cytundeb a'u sicrwydd.

Yn amlwg, bydd rhai cyfleoedd a nodir yn croesi ffiniau'r cyfarwyddiaethau ac a fydd yn effeithio ar fentrau eraill, a bydd angen trafodaeth am y sefyllfaoedd hyn. Pan gytunir ar newidiadau, byddwn yn sicrhau bod cynnydd y rhain yn cael ei gofnodi, ac rydym wedi addasu ein hadroddiadau ariannol misol i gynnwys enillion sy'n deillio o gynlluniau effeithlonrwydd a Gwerth am Arian. Rydym yn disgwyl y bydd y broses hon yn fuddiol, a phan fydd cyfle, y bydd y Cyfarwyddiaethau eraill yn cynnal adolygiadau tebyg.

## Cymharu a Meincnodi

Rydym yn cydnabod nad ydym yn unigryw a bod sefydliadau eraill yn llwyddo i ddarparu gwasanaethau rhagorol yn effeithiol ac yn effeithlon. Pan fydd hynny'n briodol, rydym yn cymharu ein hunain â'r sefydliadau hynny sydd yn debyg o ran diben, strategaeth a diwylliant. Lle y maent yn llwyddiannus a chystadleuol ond yn wahanol i'w cystadleuwyr, byddwn yn ceisio dysgu oddi wrthynt. Byddwn hefyd yn gobeithio meincnodi ein gwasanaethau; mae hyn yn digwydd eisoes gyda ein harolwg staff blynyddol ac yn anuniongyrchol drwy wobrau a chydnabyddiaeth allanol, ond byddwn yn gwneud rhagor. Yn olaf, byddwn yn chwilio am enghreifftiau gan sefydliadau eraill sydd wedi datblygu dangosyddion perfformiad ar gyfer effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, a byddwn yn ystyried a all y rhain gael eu haddasu i'n hanghenion ni.

## Sut y caiff ein cynnydd ei ddangos?

Rydym yn darparu tystiolaeth gynhwysfawr ynghylch cynlluniau, perfformiad a chydymffurfiaeth y Comisiwn, yn ogystal â dangos y gwasanaethau rhagorol yr ydym yn eu darparu, ynghyd â'n cyflawniadau. Rydym yn gwneud hyn drwy'r dulliau canlynol:

– Adroddiad Blynyddol a Datganiad o Gyfrifon

– Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol

– Adroddiadau perfformiad

– Yr Adroddiad Uchafbwyntiau

– Adroddiadau ynghylch prosiectau

– Yr Adroddiad ar Gydymffurfio â'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol

– Cynllunio gwasanaethau a gallu

– Canlyniadau Arolwg Bodlonrwydd yr Aelodau a'u Staff Cymorth

– Arolwg Staff

– Adroddiad Archwilio Blynyddol

– Adroddiad Misol ar Reoli Cyllid

Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r dulliau hyn i adrodd ar gynnydd a chyflawniad. Fodd bynnag, byddwn yn ychwanegu categori newydd at ein Fframwaith Sicrwydd a fydd yn gofyn i Benaethiaid Gwasanaeth a'r Cyfarwyddwyr gyflwyno adroddiad ar reoli, monitro a chyflwyno pob gweithgarwch effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, boed hwn yn waith newydd neu'n waith sy'n gysylltiedig â chynlluniau newid sy'n bod eisoes. Byddwn hefyd yn datblygu proses fonitro gyda'r Gwasanaeth Llywodraethu ac Archwilio i ychwanegu at y dull presennol o fonitro risgiau, problemau a phrosiectau. Yn olaf, byddwn yn ychwanegu swyddogaeth monitro a sicrwydd o ran effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd i'r cylch gorchwyl ar gyfer y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau.

# CRYNODEB PERFFORMIAD

## DARPARU CEFNOGAETH SENEDDOL O'R RADD FLAENAF

**8.70** ALLAN O **10**

OEDD Y SGÔR CYFARTALOG A RODDWYD GAN AELODAU A STAFF CYMORTH AR GYFER CYMORTH YN Y CYFARFOD LLAWN YN YR AROLWG (I FYNY O 7.70 Y FLWYDDYN FLAENOROL)

**46**

O STAFF YN DYSGU CYMRAEG

**90,004**

WEDI EDRYCH AR INBRIEF/PIGION, BLOG Y GWASANAETH YMCHWIL

**100%**

O ADRODDIADAU PWYLLGOR WEDI CAEL SYLW YN Y CYFRYNGAU DARLLEDU NEU'R WASG

## YMGYSYLLTU Â PHOBL CYMRU A HYRWYDDO CYMRU

**131**

YSGOL WEDI CYMRYD RHAN AM Y TRO CYNTAF

**163,158**

O YMWELWYR Â'R SENEDD/PIERHEAD

**274,905**

O YMWELWYR Â'R WEFAN Y MIS AR GYFARTALEDD

**239**

YMWELIAD RHYNGWLADOL I'R CYNULLIAD NEU GANDDO

# Arbedion Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd a gyflawnwyd hyd yma

Roedd gan yr adroddiad ar Werth am Arian ar gyfer 2015-16 fwy o bwyslais ar effeithlonrwydd busnes, gyda rheolwyr cyllidebau yn adrodd ynghylch eu cyflawniadau a'r cynnydd y maent yn ei wneud i gynyddu effeithlonrwydd yn eu meysydd gwasanaeth. Gofynnir am ddatganiadau'n fisol fel rhan o'r arfer o lunio adroddiadau ar ddiwedd y mis.

## Targed

Mae'r targed Gwerth am Arian wedi bod yn £500,000. Yn 2014-15, roedd 60 y cant o'r arbedion a gyflawnwyd yn arbedion cylchol, h.y. roeddent yn sicrhau arbediad mewn mwy nag un flwyddyn ariannol. Nid oedd yr un cyfle i wneud arbedion ar gontractau yn ystod 2015-16. Yn wir, dim ond un drafodaeth ar gontractau a allai sicrhau arbedion eleni ac arweiniodd hwn at arbedion o £39,000 y flwyddyn am 3 blynedd.

Fodd bynnag, byddwn yn parhau i geisio cyflawni arbedion cylchol dros y blynyddoedd nesaf drwy adnewyddu contractau a'u newid (gan fod telerau contract gwell yn darparu'r cyfle gorau), ond hefyd drwy fentrau eraill fel y gwaith trawsnewid sy'n rhan o'r prosiect FySenedd.

## Mentrau

Mae'r mentrau a ddarparwyd yn 2015/16 yn cynnwys:

- Cyflawni gwaith sy'n deillio yn sgîl swyddi gwag drwy ail-ddosbarthu gwaith rhwng aelodau eraill y tîm;
- Defnyddio adnoddau mewnol i ddarparu cyrsiau a gâi eu darparu'n draddodiadol gan ddarparwr allanol, e.e. cwrs Gloywi Iaith
- Gwell goruchwyliaeth o anghenion hyfforddiant er mwyn cydlynu'r ddarpariaeth yn y ffordd fwyaf priodol e.e. cyflwyno hyfforddiant yn fewnol yn lle anfon pobl ar gwrs allanol;
- Arbedion effeithiolrwydd yn sgîl Cyfieithu Peirianyddol a'r Adolygiad o Gofnod y Trafodion yn hwyluso cyfieithu gwaith gan staff yn fewnol yn hytrach na'i anfon yn allanol fel y byddai'n arfer â digwydd.
- Bydd symud swyddfeydd Etholaeth a swyddfeydd cartref yr Aelodau i dderbyn band eang, yn darparu gwasanaeth mwy dibynadwy a bydd yn arbed £43,000 y flwyddyn o'i gymharu â'r costau presennol.
- Bydd y Cynllun Ymadael Gwirfoddol yn sicrhau gwell effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ac arbedion.

# Astudiaethau achos manwl

## Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth am astudiaethau achos penodol lle y dangoswyd effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ystod y Pedwerydd Cynulliad.

### Pontio TGCh

Rydym wedi cyflawni lefelau trawiadol o arbedion o ganlyniad i Gontractau Mewnol gwasanaethau TGCh ac mae'r rhain wedi ein galluogi i ddatblygu gwasanaeth TGCh cryf ac effeithiol. Mae hefyd wedi cyflawni ymrwymiad ein contract mewnol i gyflawni amcanion y Strategaeth TGCh ar y lefelau cyllideb cyn y pontio, a thrwy hynny osgoi'r angen am gronfeydd buddsoddi ychwanegol, yn ogystal â'r gyllideb TGCh. Mae ychwanegu ffigurau at y datganiad hwn yn rhoi'r sefyllfa ganlynol, gyda 2014/15 y flwyddyn ariannol gyntaf yn dilyn terfynu'r contract allanol.

| Blwyddyn | Cyfwerth ag amser llawn | Cyllideb Staff £ | Cyllideb ar wahân i Staff £ | Cyfanswm y Gyllideb £ | Buddsoddi mewn TGCh £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **2012/13** | 15 | 589,199 | 3,290,710 | 3,879,909 | 0 |
| **2013/14** | 11.6 | 586,475 | 3,582,840 | 4,169,315 | 0 |
| **2014/15** | 32 | 1,597,422 | 2,302,750 | 3,900,172 | 472,355 |
| **2015/16** | 36 | 1,779,536 | 1,767,122 | 3,546,658 | 825,869 |
| **2016/17** | 40 | 1,979,060 | 1,877,350 | 3,856,410 | 516,117 |

Crëwyd y Gronfa Fuddsoddi o arbedion a gyflawnwyd drwy ddarparu'r contract gwasanaethau TGCh yn fewnol, a hefyd drwy ail-ddarparu contractau ar gyfer gwasanaethau fel cefnogaeth Clywedol a Gweledol a thrwyddedu meddalwedd. Defnyddiwyd y gronfa hon i wneud gwelliannau sylweddol i'r seilwaith TGCh o ran y rhwydwaith data, gwydnwch y gweinydd a lled band y rhyngrwyd, ac mae'r Cynulliad bellach yn profi llawer llai o darfu ar ei wasanaethau TGCh o ganlyniad i hyn.

Mae buddsoddiadau nodedig sydd wedi sicrhau arbedion yn ogystal â gwelliannau yn cynnwys:

- **System ffôn newydd** - Yn 2015 disodlwyd system teleffoni amhoblogaidd a oedd yn heneiddio y Comisiwn gydag offer IP newydd, sydd yn newid a groesawyd gan yr Aelodau, staff cymorth a staff y Comisiwn fel ei gilydd, o ran gwelliannau ymarferol a pha mor rhwydd yw i'w defnyddio. Cyfanswm cost gweithredol blynyddol y gwasanaeth a gontractiwyd allan oedd £220,000, cost caffael, gosod a ffurfweddu'r system newydd oedd £350,000 i gaffael, ac mae costau cynnal blynyddol o £37,500. Bydd y system newydd yn talu amdani'i hun erbyn hydref 2016 a bydd yn cyflawni arbediad o £180,000 y flwyddyn o'i gymharu â'i rhagflaenydd.
- **Cysylltiadau band eang i swyddfeydd etholaeth a swyddfeydd cartref yr Aelodau** - Mae'r hen wasanaeth ECX wedi cael ei ddisodli heb gost i'r Cynulliad, gyda gwasanaeth band eang Enterprise gwell gan BT, sy'n arbed £45,000 y flwyddyn ac sy'n cynnig lefelau gwell o ddibynadwyedd a chefnogaeth gan y darparwr.
- **Cefnogaeth ategol o ran data** - Fel rhan o'r gwasanaeth TGCh ar gontract allanol, roedd y Comisiwn o dan gontract i ddefnyddio datrysiad y Darparwr Gwasanaeth, ar gost o £96,000. Daeth y

contract hwn i ben ar ddiwedd 2014 ac fe'i disodlwyd gan ateb Microsoft yr oedd y Comisiwn eisoes wedi'i drwyddedu ar ei gyfer a rhywfaint o gapasiti disg ychwanegol ar gost o £20,000.

– **Gwaith Adnewyddu'r Siambr** - Yn 2012, bu'n rhaid i'r Comisiwn ymgymryd â gwaith cynnal a chadw hanfodol ar y systemau cymorth TGCh a phleidleisio electronig y Cyfarfod Llawn, a osodwyd pan agorwyd y Senedd yn 2006 ac a oedd yn dechrau bod yn annibynadwy ac yn anodd i'w cynnal. Cyflawnwyd y gwaith hwn o dan y contract gwasanaeth TGCh allanol, ar gost o £650,000 a chafodd ei gyfyngu i uwchraddio'r meddalwedd a gosod 60 o gyfrifiaduron personol bach newydd. Yn ystod 2015/16, ac am yr un gost, mae'r Comisiwn wedi adnewyddu meddalwedd y Siambr yn llwyr gyda'r meddalwedd TGCh seneddol mwyaf modern sydd ar gael ar y farchnad. Disodlwyd pob caledwedd yn y Siambr, gan gynnwys desg TG Aelodau newydd a gwaith cynhwysfawr i ailgynllunio'r lle gweithio pen-desg yn y Siambr, sy'n rhoi llawer mwy o le i'r Aelodau. Mae hon yn enghraifft arwyddocaol o ble y mae'r Comisiwn yn gallu darparu mwy o fanteision a llawer mwy o effeithlonrwydd drwy fod wedi sefydlu gwasanaeth TGCh yn fewnol.

Ers y cyfnod pontio yn 2014, bu'r Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau (IRB) yn 'neilltuo' cronfa fuddsoddi ar gyfer TGCh, er mwyn sicrhau bod arian ar gael i wella gwasanaethau TGCh ac i gyflwyno'r strategaeth TGCh. Gyda llawer o'r gwaith hwn bellach wedi'i gyflawni, mae'r diogelwch hwn bellach wedi'i dynnu i raddau helaeth (mae'r £516,000 yn ddangosol, ac y mae'n ymwneud â gwariant arfaethedig, sy'n amodol ar achos busnes). O 2017 ymlaen, ni fydd gwariant TGCh wedi'i neilltuo, a chaiff ceisiadau ar gyfer buddsoddi eu blaenoriaethu gan y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau ochr yn ochr ag anghenion eraill y Comisiwn. Dengys hyn ein bod wedi cyflawni amcanion ein strategaeth TGCh yn effeithiol o fewn y gyllideb, ac rydym yn awr mewn sefyllfa i ryddhau arbedion parhaus ar gyfer eu buddsoddi'n ehangach.

## Yr Adolygiad o Gofnod y Trafodion - Cyfieithu

I gyflawni'r effeithlonrwydd mwyaf o ran ein hadnoddau, mae gennym system hybrid lle y mae staff Cyfieithu a Chofnodi y Gwasanaeth yn gwneud cyfuniad o waith golygu Cofnod y Trafodion, cyfieithu testun a / neu gyfieithu ar y pryd. Rydym yn ychwanegu at ein hadnoddau mewnol drwy ddefnyddio cyfieithwyr ar gontract allanol, i ymdopi â'r galw ar adegau brig ac ar gyfer dychwelyd gwaith yn gyflym. Rydym yn cynyddu ein defnydd o'r cyfleuster cyfieithu peirianyddol (MT) ac mae hyn wedi arwain at newid arwyddocaol yn y ffocws ar gyfer ein cyfieithwyr, o gyfieithu yn bennaf i olygu ar ôl cyfieithu.

Dros gyfnod y Pedwerydd Cynulliad, roedd cynnydd o 30 y cant yn y swm o waith cyfieithu a gafwyd, a chyflawnwyd y gwaith heb gynnydd o gwbl mewn costau allanol, ac mae cyfieithu peirianyddol yn chwarae rôl sylweddol wrth ateb y galw hwn, ochr yn ochr â gwella prosesau o fewn yr Adran Cyfieithu a Chofnodi.

Rydym hefyd wedi adolygu natur y gwaith yr ydym yn ei anfon yn allanol, ac mae'r cyfraddau tâl ar gyfer cyfieithu testun allanol yn amrywio yn ôl y terfynau amser ar gyfer dychwelyd y gwaith. Yn gyffredinol, rydym yn awr yn anfon rhagor o waith i gyfieithwyr allanol ar gyfradd is.

| | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | Cynnydd neu ostyngiad ers 2014-15 | Y duedd gyffredinol ers 2013-14 |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau cyfieithu allanol | £246,254 | £241,853 | £235,461 | Lleihad o £7,637 | Lleihad o £10,793<br>4.4 y cant |
| Geiriau a gyfieithwyd (mewnol ac allanol) | 3,884,400 | 4,637,000 | 5,052,000 | Cynnydd o 415,000 | Cynnydd o 1,167,600<br>30 y cant |
| Gwaith a anfonwyd yn allanol (geiriau) | 895,000 | 1,170,200 | 891,700 | Lleihad o 278,500 | Lleihad o 3,300<br>0.33 y cant |
| Cyfieithu'r Cofnod (geiriau a gwblhawyd yn allanol) | 2,671,000 | 2,619,000 | 2,622,600 | Cynnydd o 3,600 | Lleihad o 48,400<br>1.81 y cant |

## Rheoli Adnoddau a Chynllunio

Bydd oddeutu £484,000 o arbedion yn sgîl y Cynllun Ymadael Gwirfoddol, sy'n deillio o ailddyrannu cyfrifoldebau yn y Gwasanaeth pan gafodd swyddi eu dileu, neu ailstrwythuro er mwyn caniatáu i gael staff newydd yn eu lle ar raddau is. Mae rhan sylweddol o'r arbediad hwn wedi helpu i wrthbwyso effaith y rownd ddiwethaf o gynllunio capasiti, felly, pan wnaethom ddrafftio'r gyllideb staff gyntaf ar gyfer 2016-17, y cyfanswm oedd £20.391 miliwn, ac erbyn i ni ddyrannu'r cyllidebau gwirioneddol ym mis Mawrth, y gyllideb oedd £ 20.282 miliwn. Roedd hyn yn cynnwys effaith y Cynllun Ymadael Gwirfoddol ond hefyd y newidiadau eraill a'r swyddi newydd y cytunwyd arnynt yn y cyfamser. Heb arbedion y Cynllun Ymadael Gwirfoddol byddem yn gorfod ariannu'r adnoddau ychwanegol o rannau eraill o gyllideb y Comisiwn.

## Caffael

Dros gyfnod y Pedwerydd Cynulliad cyflawnwyd rhai arbedion sylweddol ar gontractau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau a nwyddau; mae'r arbedion a gyflawnwyd ar ddarparu trwyddedau meddalwedd, system ffôn a llungopïwyr i'w nodi'n arbennig. Mae'r tabl isod yn rhoi rhagor o fanylion:

| | | | | | | | Arbediad Rhyddhau Arian | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dyddiad | Swyddogaeth / Is-adran | Disgrifiad o'r contract: | Cyfnod y contract (Blynyddoedd) | Pris y Gylideb/ Pris Gwreiddiol a Dalwyd | • Gwerth y contract | Cyfanswm Arbediad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 |
| Gorffennaf 2012 | Cyllid | Contract Cyflogres Logica | 1 | £19,992 | £13,020 | £6,972 | £5,229 | £1,743 | | | | |
| Hydref 2012 | Yr Uned Gydgysylltu | Cerbyd Swyddogol y Llywydd | 3 | £27,811 | £22,496 | £5,315 | £1,034 | £1,772 | £1,772 | £738 | | |
| **2012-13** | Ystadau a Chyfleusterau | Gosod bolardiau Diogelwch | 1 | £139,355 | £123,526 | £15,829 | £15,829 | | | | | |
| Mai 2013 | TGCh | Dyfeisiau symudol | 2 | £135,600 | £50,172 | £85,428 | | £42,714 | £42,714 | | | |
| Gorffennaf 2013 | Llywodraethu ac Archwilio | Y Gwasanaeth Archwilio Mewnol | 4 | £65,452 | £56,160 | £9,292 | | £2,323 | £2,323 | £2,323 | £2,323 | £2,323 |
| Tach 2013 | TGCh | Trwyddedau Cefnogi Meddalwedd TG | 4 | £667,012 | £491,213 | £175,799 | | £43,950 | £43,950 | £43,950 | £43,950 | £43,950 |
| Rhagfyr 2013 | TGCh | System Rheoli Achosion | 2 | £72,328 | £71,158 | £1,170 | | £585 | £585 | | | |
| Ionawr 2014 | TGCh | Datblygu Gwefan Sharepoint | 1 | £112,320 | £100,800 | £11,520 | | £11,520 | | | | |
| Ebrill 2014 | TGCh | Llinellau PSTN BT | 1 | £84,800 | £61,056 | £23,744 | | | £23,744 | | | |
| Mai 2014 | TGCh | Mainc weithio Deddfwriaethol | 2 | £80,910 | £45,000 | £35,910 | | | £17,955 | £17,955 | | |
| Awst 2014 | TGCh | Peirianwyr Maes | 4 | £85,000 | £65,000 | £20,000 | | | £3,333 | £5,000 | £5,000 | £6,667 |
| Awst 2014 | TGCh | Gwasanaeth teleffoni | 1 | £278,928 | £263,084 | £15,844 | | | £15,844 | | | |
| Rhagfyr 2014 | TGCh | Gwasanaeth Teleffoni 2015 | 3 | £789,252 | £353,119 | £436,133 | | | | £145,378 | £145,378 | £145,378 |
| Ionawr 2015 | TGCh | Cysylltedd Rhyngrwyd - Bae Colwyn | 4 | £60,000 | £34,505 | £25,495 | | | £1,062 | £6,374 | £6,374 | £11,685 |
| Ebrill 2014 | Ystadau a Chyfleusterau | Ffotogopiwyr | 3 | £420,483 | £302,949 | £117,534 | | | | £39,174 | £39,174 | £39,174 |
| | | | | | | **arbedion a amcangyfrifwyd** | **£22,092** | **£104,607** | **£153,282** | **£260,891** | **£242,198** | **£249,177** |

Gan edrych ymlaen at 2016 a thu hwnt, mae gennym nifer o gontractau gwerth mawr i gael eu hail-sefydlu, gan gynnwys y contract Arlwyo gwerth £1.7 miliwn, trwyddedu meddalwedd gwerth £540,000, Iechyd Galwedigaethol gwerth £150,000 a chefnogaeth system ffôn gwerth £120,000. Mae'r broses dendro am y contract Arlwyo newydd gael ei chwblhau, a bu Charlton House yn llwyddiannus eto. Rydym wedi cytuno ar arbedion o £72,000 y flwyddyn o gymharu â'r contract blaenorol, a fyddai'n sicrhau arbediad o £360,000 dros y pum mlynedd o oes y contract. Dyma'r sefyllfa ar y dechrau a byddwn yn gweithio i gytuno ar sefyllfa well eto wrth i'r contract barhau.

## FySenedd - Prosiect y Swyddfa Gyflwyno

Y Swyddfa Gyflwyno yw'r man galw cyntaf ar gyfer unrhyw Aelod sydd am gyflwyno eitem o fusnes, fel cwestiynau, datganiadau o farn, cynigion a gwelliannau i gynigion. Ar hyn o bryd, cefnogir y gweithgareddau busnes hyn gan lawer o brosesau â llaw, sy'n cynnwys nifer o staff, mynediad lluosog at systemau gwahanol ac olrhain cynnydd, ac mae rhoi gwybod i'r Aelodau a chyhoeddi'r canlyniadau yn anodd ac yn aneffeithlon.

Mae'r Rhaglen FySenedd wedi nodi gwella ymarferoldeb y Swyddfa Gyflwyno fel blaenoriaeth uchel ar gyfer darparu ffordd fwy effeithlon o brosesu'r eitemau hyn sy'n cefnogi'r angen busnes a dewisiadau Aelodau. Mae'r newidiadau sydd wedi eu nodi yn yr Achos Busnes Amlinellol yn cynnwys:

- Gwasanaeth ar-lein rhyngweithiol ar gyfer Aelodau i gofnodi ac olrhain eitemau busnes yn yr iaith o'u dewis;
- Rhoi hysbysiadau awtomatig i Aelodau i roi gwybod iddynt am gynnydd eu heitemau busnes;
- Gall yr Aelodau ddefnyddio eu cyfleusterau TGCh i gyfathrebu â'r Swyddfa Gyflwyno o unrhyw leoliad;
- Gwybodaeth mwy chwiliadwy a mwy hygyrch ar-lein;
- Galluogi staff y Swyddfa Gyflwyno i gynnal pleidleisiau ar gyfer cwestiynau llafar mewn modd effeithlon ac effeithiol, er mwyn diweddaru'r Aelodau yn gyflym ac yn gywir.
- At ei gilydd, i ryddhau capasiti staff o brosesu â llaw.

Bydd yr Achos Busnes Llawn ar gyfer y prosiect hwn yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau ym mis Medi a bydd yn cynnwys asesiad cost a budd manwl.

## Papur yr ystafell Argraffu – defnyddio papur A3 yn lle A4

Cyn mis Tachwedd 2015, roedd 80 y cant o gynnyrch yr Ystafell Argraffu yn cael ei wneud ar bapur A4. Fodd bynnag, mae adolygiad mewnol wedi arwain at weithdroad sylweddol lle rydym yn awr yn argraffu 80 y cant o waith ar bapur A3 ac yna'n ei dorri i faint. Parheir i ddefnyddio'r 20 y cant o bapur A4 sy'n weddill ar gyfer ceisiadau argraffu penodol o ansawdd uchel. O ganlyniad, mae'r costau papur argraffu rhwng mis Tachwedd 2015 a mis Mai 2016 wedi lleihau £8,000, ac er bod rhywfaint o hyn o ganlyniad i lai o alw (y diddymu), mae budd cost amlwg yn deillio o'r newid.



# Mesurau perfformiad allweddol

# Crynodeb o'n Perfformiad – mis Medi 2015 tan fis Mawrth 2016

## Perfformiad o ran darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf

Parhawyd i wneud yn dda ar draws y gyfres hon o ddangosyddion, a hynny er i ni gael cyfnod prysur iawn o ran gwaith craffu deddfwriaethol. O ran perfformiad yn ôl ein blaenoriaethau corfforaethol, gwnaethom gynnydd da o ran cyflawni'r strategaeth TGCh, paratoi ar gyfer trosglwyddo i'r Pumed Cynulliad a gwella ein gwasanaethau dwyieithog. Roedd yn arbennig o galonogol bod lefelau boddhad Aelodau a'u staff cymorth wedi cynyddu'n sylweddol eto yn y maes hwn, sy'n dangos ein bod yn gwrando ar safbwyntiau'r Aelodau ac yn gweithredu arnynt.

## Perfformiad o ran ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru

Parhaodd nifer fawr o ymwelwyr i ymweld â'r ystâd, ac roedd rhagor yn ystod y cyfnod hwn oherwydd y teithiau tywys. Gwnaethom gynyddu ein presenoldeb ar-lein yn sylweddol ac mae dros 50 o gyfrifon ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n darparu gwybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gwnaed gwelliannau i wefan y Cynulliad i'w gwneud yn bosibl defnyddio erthyglau newyddion i hyrwyddo digwyddiadau ac i hybu'r erthyglau hyn ar Hafan y wefan.

Cysylltodd y Tîm Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc â phob ysgol uwchradd yng Nghymru yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, ond er gwaethaf eu hymdrechion, ni fanteisiodd 14 o ysgolion ar y cyfle i ymgysylltu â'r Cynulliad. Byddwn yn parhau i gyfathrebu â'r ysgolion yn y Pumed Cynulliad i'w hannog i gymryd rhan.  Rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016, parhawyd i wella ein harlwy ar gyfer grwpiau 'newydd' eraill y tu allan i'r lleoliad ysgol, gan weithio gyda 178 o grwpiau ieuenctid. Drwy nifer o weithgareddau, gwnaethom ymgysylltu â 571 o grwpiau a gweithio gydag 20,967 o bobl ifanc.

## Perfformiad o ran defnyddio adnoddau'n ddoeth

Ar ddiwedd cyfnod yr adroddiad, roedd perfformiad y gyllideb o fewn y targed, a chafodd yr holl arbedion eu hail-fuddsoddi er mwyn gwella gwasanaethau'r Comisiwn.

Roedd arolwg staff y Cynulliad ym mis Mai 2015 yn cynnwys ymgysylltu â chyflogeion fel un o'r llinynnau mesur am y tro cyntaf. Wrth feincnodi yn erbyn 101 o sefydliadau unigol y Gwasanaeth Sifil o bob rhan o'r DU a gymerodd ran yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil, dim ond tri sydd â sgôr ymgysylltu sy'n uwch na'r Cynulliad.  O blith y sefydliadau hynny y mae eu prif ganolfan yng Nghymru, sgôr ymgysylltu'r Cynulliad oedd yr uchaf.

Gwnaed gwaith da yn ystod blwyddyn gyntaf y Strategaeth Lleihau Carbon newydd. Oherwydd gwelliannau seilwaith a gwelliannau parhaus i effeithlonrwydd, llwyddwyd i weithredu 11 y cant yn is na'r flwyddyn sylfaen, sef gostyngiad llawer mwy na'r gostyngiad 6 y cant sydd ei angen o un flwyddyn i'r nesaf.

# CRYNODEB PERFFORMIAD

## DEFNYDDIO ADNODDAU'N DDOETH

**72%**

LEFEL YR YMGYSYLLTIAD STAFF YN ÔL YR AROLWG STAFF BLYNYDDOL (59% YW CANOLRIF Y GWASANAETH SIFIL)

**7.6%**

LLEIHAD MEWN ALLYRIADAU

(TARGED BLYNYDDOL O 6%)

**0.13%**

TANWARIANT CYLLIDEB

(TARGED O <1%)

**450**

O STAFF AMSER LLAWN A DIDUEDD YN WLEIDYDDOL YN GWEITHIO I GOMISIWN Y CYNULLIAD

**163,158**

O YMWELWYR Â'R SENEDD A PIERHEAD

**12%**

GOSTYNGIAD MEWN COSTAU GWASANAETHAU TGCHS

# Crynodeb o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol

| Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf | Ebrill 2014 – Mawrth 2015 | Ebrill 2015 – Mawrth 2016 |
|---|---|---|
| **KPI 1: Prydlondeb a Chyflenwi Gwasanaethau**<br>Perfformiad cyson uchel o ran cyhoeddi papurau pwyllgor, papurau briffio a Chofnod y Trafodion yn brydlon, a hynny er i ni gael cyfnod prysur iawn o ran gwaith craffu deddfwriaethol. | gwyrdd | gwyrdd |
| **KPI 2: Datblygiad Proffesiynol**<br>Yn dilyn adolygiad o'r ddarpariaeth dysgu iaith ar gyfer Aelodau a staff, crëwyd tîm Sgiliau Iaith newydd. Parhaodd Comisiwn y Cynulliad i rannu ei brofiad a'i arbenigedd o ran gweithio'n ddwyieithog ac fe'i cynrychiolwyd ar weithgor y Gweinidog ar y Gymraeg ym maes gweinyddu llywodraeth leol a datblygu economaidd. | oren | gwyrdd |

| Ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru | Ebrill 2014 – Mawrth 2015 | Ebrill 2015 – Mawrth 2016 |
|---|---|---|
| **KPI 3: Ymgysylltu yn y Cynulliad**<br>Er i nifer yr ymwelwyr ostwng, cynyddodd y nifer sy'n ymgysylltu â'r Cynulliad drwy fynd ar deithiau. Parhaodd lefelau boddhad yr ymwelwyr i fod yn uwch na'r targed. | gwyrdd | gwyrdd |
| **KPI 4: Proffil Allanol y Cynulliad**<br>Drwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, datblygwyd ein presenoldeb ar-lein yn sylweddol. Mae gwaith y pwyllgorau yn parhau i gael cryn sylw yn y cyfryngau. | gwyrdd | gwyrdd |

| Defnyddio adnoddau'n ddoeth | Ebrill 2014 – Mawrth 2015 | Ebrill 2015 – Mawrth 2016 |
|---|---|---|
| **KPI 5: Perfformiad Cyllidebol**<br>Sefyllfa gref: sicrhawyd tanwariant o 0.13 y cant o'r gyllideb, sydd ymhell o fewn y targed o < 1 y cant; rhagorwyd ar y targed gwerth am arian hefyd. | gwyrdd | gwyrdd |
| **KPI 6: Staff**<br>Parhawyd i ganolbwyntio'n strategol ar reoli absenoldeb, ac roedd rhywfaint o bryder ynghylch lefelau absenoldeb. Cyflwynwyd gwelliannau i'n dulliau o reoli perfformiad a datblygu staff a chafwyd adborth cadarnhaol. | oren | oren |
| **KPI 7: Gwasanaeth Cwsmeriaid TGCh**<br>Gwnaed gwelliannau yn y maes drwy hyfforddi asiantau'r ddesg gymorth yn barhaus. Cynyddodd sgoriau boddhad cwsmeriaid yn y maes gan adlewyrchu hyn. | oren | oren |
| **KPI 8: Llywodraethu**<br>Er gwaethaf cynnydd yn nifer y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a ddaeth i law, llwyddwyd i ateb mwy o fewn y terfyn amser statudol. | gwyrdd | gwyrdd |
| **KPI 9: Cynaliadwyedd**<br>Parhawyd i wneud gwaith da o ran y gostyngiad yng nghyfanswm y targed ynni newydd. Gosodwyd targed newydd o anfon 'dim gwastraff i safleoedd tirlenwi erbyn mis Mawrth 2021' a dechreuwyd gweithio tuag at gyrraedd y targed. | gwyrdd | gwyrdd |

| Hynt blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol | Ebrill 2014 – Mawrth 2015 | Ebrill 2015 – Mawrth 2016 |
|---|---|---|
| **Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf**<br>Cynorthwyodd swyddogion y Comisiwn y pwyllgorau i gynhyrchu adroddiadau etifeddiaeth a oedd yn nodi effaith eu gwaith yn ystod y Pedwerydd Cynulliad ac i wneud argymhellion i lywio gwaith pwyllgorau dilynol y Pumed Cynulliad. | gwyrdd | gwyrdd |
| **Ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru**<br>Parhaodd lefelau da o ymgysylltiad â busnes y Cynulliad. Gwelwyd gwelliannau sylweddol yn lefel yr ymgysylltiad drwy'r cyfryngau cymdeithasol. | gwyrdd | gwyrdd |
| **Defnyddio adnoddau'n ddoeth**<br>Mae'r gwaith i adnewyddu TGCh a gwella ergonomeg Siambr y Senedd bron wedi'i gwblhau ar ddiwedd y flwyddyn. Llwyddwyd i wella rhwydweithiau di-wifr yr holl swyddfeydd etholaeth, a gwnaed newidiadau i'n helpu i ddefnyddio llai o ynni a chyflawni ein targedau cynaliadwyedd. | gwyrdd | gwyrdd |

| Arolwg o foddhad yr Aelodau | Ebrill 2014 – Mawrth 2015 | Ebrill 2015 – Mawrth 2016 |
|---|---|---|
| **Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf**<br>Roedd y sgoriau cyffredinol ar gyfer cymorth yn y Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd pwyllgor wedi gwella'n sylweddol yn arolwg boddhad 2015, gan gynyddu o 7.7 i 8.7 ac o 7.9 i 8.4 yn y drefn honno. | gwyrdd | gwyrdd |
| **Ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru**<br>Roedd gwelliant amlwg yn arolwg boddhad 2015 yn y sgôr cyffredinol ar gyfer effeithiolrwydd y gwaith ymgysylltu a wneir. Cynyddodd y sgôr o 6.7 i 7.4. | oren | gwyrdd |
| **Defnyddio adnoddau'n ddoeth**<br>Yn arolwg boddhad 2015, roedd gwelliant sylweddol yn y sgoriau ar gyfer amrywiaeth o'r gwasanaethau a ddarperir i Aelodau, gan gynnwys lwfansau a staffio a TGCh, a gynyddodd o 8.7 i 9.3 ac o 7.5 i 8.4 yn y drefn honno. | gwyrdd | gwyrdd |

## Allwedd

COCH: Mae materion sylweddol yn effeithio ar y gallu i gyflawni amcanion busnes. I sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni, mae angen newidiadau o ran amser, costau a/neu gwmpas.

MELYN: Mae materion neu risgiau y mae angen mynd i'r afael â nhw. Serch hynny, mae'n bosibl y bydd modd cyflawni'n llwyddiannus heb effeithio rhyw lawer ar y gyllideb, safon gwasanaethau na dyddiadau targed.

GWYRDD: Mae gwaith yn bodloni'r safonau y cytunwyd arnynt neu yn mynd rhagddo fel y cynlluniwyd. Mae pob risg sy'n hysbys yn cael ei rheoli.

# Ymgynghori ac Adborth ar ein Perfformiad

Mae gan Gomisiwn y Cynulliad ymrwymiad parhaus i ddatblygu gallu sefydliadol, yn erbyn cefndir o anghenion cyfnewidiol yn y sefydliad; i sicrhau bod gan y Cynulliad bobl fedrus, llawn cymhelliant yn y swyddi cywir, yn barod i ddarparu gwasanaethau seneddol o'r radd flaenaf.

Mae ein harolwg staff mwyaf diweddar, sydd wedi'i feincnodi yn erbyn cymaryddion y Gwasanaeth Sifil, yn parhau i ddangos darlun cadarnhaol iawn o ran lefelau uchel parhaus o ymgysylltu â chyflogeion, gwir ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau o safon uchel, ac mae'n rhoi sicrwydd cadarnhaol bod y Cynulliad yn lle gwych i weithio.

Y GYFRADD YMATEB OEDD **85%** YN EIN HAROLWG DIWEDDARAF

CYFRADD YMATEB LLYWODRAETH CYMRU OEDD **62%** YN EI HAROLWG DIWEDDARAF

CANOLRIF Y GWASANAETH SIFIL YW **65%**

| | |
|---|---|
| **85%** | 2016 |
| **93%** | 2015 |
| **77%** | 2013 |

**384**

NIFER YR AELODAU O STAFF A YMATEBODD I'R AROLWG

## Y PRIF THEMÂU

Cyfrifwyd cyfran y cyflogeion a ddywedodd eu bod nhw naill ai'n 'cytuno' neu'n 'cytuno'n bendant' fel canran ar gyfartaledd o ymatebion cadarnhaol ym mhob thema, er mwyn rhoi mesur cymaradwy.

### Fi a fy ngwaith

Bod â'r adnoddau a'r amser i wneud y swydd

**76%**

### Amcanion a dibenion y sefydliad

Dealltwriaeth o bwrpas y Cynulliad

**82%**

### Fy rheolwr

Eich perthynas â'ch goruchwyliwr uniongyrchol

**68%**

### Fy nhîm

Eich perthynas â'ch cydweithwyr agos

**84%**

### Cynhwysiant a thriniaeth deg

Teimlo eich bod chi'n cael eich gwerthfawrogi a'ch parchu

**83%**

### Arweinyddiaeth a rheoli newid

Perthnasau â'r rheolwyr a rheoli newid sefydliadol yn effeithiol

**52%**

## Y MYNEGAI YMGYSYLLTU

**72%** OEDD EIN SGÔR AR Y MYNEGAI YMGYSYLLTU Â STAFF

SGÔR LLYWODRAETH CYMRU OEDD **63%** AR Y MYNEGAI YMGYSYLLTU Â STAFF YN EI HAROLWG DIWETHAF

CANOLRIF Y GWASANAETH SIFIL YW **58%**

# Y MYNEGAI YMGYSYLLTU

| Dadansoddiad o'r mynegai ymgysylltu: | |
|---|---|
| **C13a** Rwy'n falch pan fyddaf yn dweud wrth bobl eraill fy mod yn rhan o'r Cynulliad | **79%** |
| **C13b** Byddwn yn argymell y Cynulliad fel lle gwych i weithio | **81%** |
| **C13c** Rwy'n teimlo ymlyniad personol cryf i'r Cynulliad | **64%** |
| **C13d** Mae'r Cynulliad yn fy ysbrydoli i wneud y gorau yn fy ngwaith | **62%** |
| **C13e** Mae'r Cynulliad yn fy ysgogi i'w helpu i gyflawni ei amcanion | **58%** |

# YMATEBION MWYAF / LLEIAF CADARNHAOL

Yn seiliedig ar gyfanswm canran yr ymatebion cadarnhaol i bob cwestiwn, mae'r tablau canlynol yn dangos y cwestiynau a gafodd yr ymatebion mwyaf a lleiaf cadarnhaol:

| ✔ Y pum cwestiwn â'r nifer fwyaf o ymatebion cadarnhaol | Canran gadarnhaol |
|---|---|
| Mae eraill yn ymddiried ynof i gyflawni fy ngwaith yn effeithiol | **87.9%** |
| Gellir dibynnu ar y bobl yn fy nhîm i helpu pan fydd pethau'n mynd yn anodd yn fy ngwaith | **87.6%** |
| Mae'r bobl yn fy nhîm yn gweithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i ffyrdd o wella'r gwasanaethau a ddarperir gennym | **86.8%** |
| Mae pawb rwy'n cydweithio â nhw'n dangos parch tuag ataf | **85.4%** |
| Rwyf yn deall sut mae fy ngwaith yn cyfrannu at nodau strategol Comisiwn y Cynulliad | **83.0%** |

| ✘ Y pum cwestiwn â'r ymatebion lleiaf cadarnhaol | Canran gadarnhaol |
|---|---|
| Credaf ei bod yn ddiogel herio'r modd y caiff pethau eu gwneud yn y Cynulliad | **40.7%** |
| Mae gennyf gyfle i fynegi barn cyn y gwneir penderfyniadau sy'n effeithio arnaf | **41.0%** |
| Mae fy nhîm yn mynd i'r afael yn effeithiol â pherfformiad gwael | **45.6%** |
| Pan wneir newidiadau yn y Cynulliad, gwneir hynny er gwell fel arfer | **48.3%** |
| Mae uwch reolwyr yn y Cynulliad yn ddigon gweladwy | **48.9%** |



Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# Adroddiad ar Berfformiad Corfforaethol Comisiwn y Cynulliad

Ebrill 2015 - Mawrth 2016

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Comisiwn y Cynulliad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys ar ffurf Braille, fersiwn hawdd ei darllen, fersiwn print bras, fersiwn sain a chopi caled drwy gysylltu â ni:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ar-lein: **www.cynulliad.cymru**
E-bost: **cysylltu@cynulliad.cymru**
Ffôn: **0300 200 6565**

Rydym yn croesawu galwadau a wneir drwy wasanaeth Text Relay.

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# Adroddiad ar Berfformiad Corfforaethol Comisiwn y Cynulliad

Ebrill 2015 - Mawrth 2016

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Comisiwn y Cynulliad

# Cynnwys


**Cyflwyniad ........ 1**

Y Pedwerydd Cynulliad ........ 1

Y Pumed Cynulliad ........ 2

Adrodd am berfformiad ........ 2

Uchafbwyntiau perfformiad ........ 3

Perfformiad o ran darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf ........ 3

Perfformiad o ran ymgysylltu â phobl Cymru a Hyrwyddo Cymru ........ 3

Perfformiad o ran defnyddio adnoddau'n ddoeth ........ 3

Mynediad at wybodaeth ........ 3

**Mesurau Perfformiad Corfforaethol:  Cyflawniad ar sail Nodau Strategol ........ 4**

**Nod: Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf ........ 6**

KPI 1: Prydlondeb a chyflenwi gwasanaethau ........ 6

KPI 2: Datblygiad proffesiynol ........ 7

Hynt blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol ........ 7

Arolwg o foddhad yr Aelodau ........ 8

**Nod: Ymgysylltu â phobl Cymru a Hyrwyddo Cymru ........ 9**

KPI 3: Ymgysylltu â'r Cynulliad ........ 9

KPI 4: Proffil allanol y Cynulliad ........ 10

Hynt blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol ........ 12

Arolwg o foddhad yr Aelodau ........ 13

**Nod: Defnyddio adnoddau'n ddoeth ........ 14**

KPI 5: Perfformiad cyllidebol ........ 14

KPI 6: Staff ........ 15

KPI 7: Gwasanaeth Cwsmeriaid TGCh ........ 16

KPI 8: Llywodraethu ........ 16

KPI 9: Cynaliadwyedd ........ 17

Hynt blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol ........ 17

Arolwg o foddhad yr Aelodau ........ 18

**Atodiad A - Amserlenni Deddfwriaethol ........ 19**



# Cyflwyniad

Yr enw ar gorff corfforaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw Comisiwn y Cynulliad. Rôl Comisiwn y Cynulliad yw darparu'r staff, yr eiddo a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar y Cynulliad ac mae'r corff yn atebol i'r Cynulliad. Mae'r gwaith o reoli a chyflawni o ddydd i ddydd wedi'i ddirprwyo i **Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, Claire Clancy**.

Dyma'r ail adroddiad ar gyfer blwyddyn ariannol 2015-16 a'r un olaf ar gyfer y flwyddyn, a dyma'r adroddiad olaf ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad.

## Y Pedwerydd Cynulliad

Yn y Pedwerydd Cynulliad, nododd y Comisiwn mai ei bwrpas yw gwasanaethu Cynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn helpu i'w wneud yn sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar ac yn ddeddfwrfa sy'n gweithredu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

Roedd Comisiwn y Pedwerydd Cynulliad yn cynnwys y Fonesig Rosemary Butler AC, y Llywydd, a phedwar Aelod Cynulliad wedi'u henwebu gan bob un o'r pedair plaid wleidyddol a gynrychiolwyd yn y Cynulliad: Peter Black AC, Angela Burns AC, Sandy Mewies AC a Rhodri Glyn Thomas AC. Roedd David Melding AC, y Dirprwy Lywydd, yn mynd i gyfarfodydd y Comisiwn hefyd.

Roedd nodau'r Pedwerydd Cynulliad wedi'u rhestru yn **Strategaeth Comisiwn y Cynulliad 2011-16**, sef:

- darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf;
- ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru;
- defnyddio adnoddau'n ddoeth.

Er mwyn cefnogi nodau strategol y Comisiwn, roedd pum maes blaenoriaeth ar gyfer newid, arloesi a buddsoddi yn ystod y Pedwerydd Cynulliad. Mae'r rhain wedi'u nodi yn **Strategaeth Comisiwn y Cynulliad 2014-2016,** sef cynllun corfforaethol a ddatblygwyd i roi mwy o eglurder a chyfeiriad i staff am ein strategaeth, ein blaenoriaethau ac elfennau amrywiol o lywodraethu. Y meysydd blaenoriaeth oedd:

- galluogi'r Cynulliad i fod mor effeithiol â phosibl drwy'r gefnogaeth a ddarperir gennym, a thrwy'r camau nesaf yn ein strategaeth TGCh;
- gwasanaethau dwyieithog ehangach;
- ymgysylltu'n well â phobl yng Nghymru;
- gwneud y gorau o'n hystâd; a
- bod yn gwbl barod ar gyfer y trosglwyddiad i'r Pumed Cynulliad a'r heriau newydd a ddaw yn sgil hynny.

## Y Pumed Cynulliad

Mae Comisiwn newydd y Pumed Cynulliad yn cynnwys y **Llywydd**, Elin Jones AC, a phedwar Aelod Cynulliad a enwebwyd gan grwpiau'r pleidiau a gynrychiolir yn y Cynulliad: Suzy Davies AC, Joyce Watson AC, Dai Lloyd AC a Caroline Jones AC.

Mae pwrpas ac amcanion strategol y Pedwerydd Cynulliad wedi gweithio'n effeithiol yn ystod y pum mlynedd diwethaf ac mae'r Comisiwn newydd wedi cadarnhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol o ran darparu ffocws ar gyfer uchelgeisiau'r Pumed Cynulliad. Fodd bynnag, mae gwelliant sylweddol i adlewyrchu perthynas newydd, mwy uniongyrchol ac atebol rhwng y Cynulliad a threthdalwyr, wedi ei gynnwys yn y datganiad newydd o bwrpas, sef:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae nodau strategol y Pumed Cynulliad wedi'u diwygio rhywfaint fel a ganlyn:

- darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf;
- ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad;
- defnyddio adnoddau'n ddoeth.

Maent yn pennu'r fframwaith am gyfres uchelgeisiol o flaenoriaethau, gan adeiladu ar y buddsoddiad a'r momentwm a gyflawnwyd yn y Pedwerydd Cynulliad, yn enwedig yng ngoleuni'r sefyllfa gyfansoddiadol sy'n newid, gan gynnwys canlyniad refferendwm yr UE, a'r angen parhaus am well ymgysylltiad.

## Adrodd am berfformiad

Mae'r adroddiad yn rhoi gwybodaeth am berfformiad corfforaethol y Comisiwn am y cyfnod rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016, gan gynnwys:

- uchafbwyntiau perfformiad, yn ôl nod strategol;
- crynodeb ar ffurf goleuadau traffig sy'n nodi'r perfformiad cyffredinol ar sail ein nodau strategol;
- dadansoddiad manylach o'r dangosyddion unigol sy'n rhan o'r crynodeb hwnnw, gan gynnwys;
  - dangosyddion i ddangos cynnydd o gymharu â'r targed; a
  - saeth i ddangos y cynnydd ar sail yr un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol.

## Uchafbwyntiau perfformiad

### Perfformiad o ran darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf

Parhawyd i wneud yn dda ar draws y gyfres hon o ddangosyddion, a hynny er i ni gael cyfnod prysur iawn o ran gwaith craffu deddfwriaethol. O ran perfformiad o gymharu â'n blaenoriaethau corfforaethol, gwnaethom gynnydd da o ran cyflawni'r strategaeth TGCh, paratoi ar gyfer y Pumed Cynulliad a gwella ein gwasanaethau dwyieithog. Roedd yn arbennig o galonogol bod lefelau boddhad Aelodau a staff cymorth wedi cynyddu'n sylweddol eto yn y maes hwn – gan ddangos ein bod yn gwrando ar safbwyntiau'r Aelodau ac yn gweithredu arnynt.

### Perfformiad o ran ymgysylltu â phobl Cymru a Hyrwyddo Cymru

Parhaodd nifer fawr o ymwelwyr i ymweld â'r ystâd, ac roedd mwy yn ystod y cyfnod hwn drwy gyfrwng y teithiau tywys. Gwnaethom ddatblygu ein presenoldeb ar-lein yn sylweddol ac mae bellach 50 o gyfrifon ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n darparu gwybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gwnaed gwelliannau i wefan y Cynulliad i'w gwneud yn bosibl defnyddio erthyglau newyddion i hyrwyddo digwyddiadau ac i hybu'r erthyglau hyn ar yr hafanddalen.

Cysylltodd y Tîm Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc â phob ysgol uwchradd yng Nghymru yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, ond er gwaethaf eu hymdrechion, ni fanteisiodd 14 o ysgolion ar y cyfle i ymgysylltu â'r Cynulliad. Byddwn yn parhau i gysylltu ag ysgolion yn y Pumed Cynulliad i'w hannog i gymryd rhan. Rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016, parhawyd i wella ein harlwy ar gyfer grwpiau 'newydd' y tu allan i'r lleoliad ysgol, gan weithio gyda 178 o grwpiau ieuenctid. Drwy nifer o weithgareddau, gwnaethom ymgysylltu â 571 o grwpiau a gweithio gydag 20,967 o bobl ifanc.

### Perfformiad o ran defnyddio adnoddau'n ddoeth

Ar ddiwedd cyfnod yr adroddiad, roedd perfformiad y gyllideb o fewn i'r targed, a chafodd yr holl arbedion eu hailfuddsoddi er mwyn gwella gwasanaethau'r Comisiwn.

Roedd arolwg staff y Cynulliad yn cynnwys ymgysylltu â chyflogeion fel un o'r llinynnau mesur am y tro cyntaf ym mis Mai 2015. Wrth feincnodi yn erbyn y 101 o sefydliadau unigol y Gwasanaeth Sifil o bob rhan o'r DU a gymerodd ran yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil, dim ond tri sydd â sgôr ymgysylltu sy'n uwch na'r Cynulliad. O blith y sefydliadau hynny y mae eu prif ganolfan yng Nghymru, sgôr ymgysylltu'r Cynulliad oedd yr uchaf.

Gwnaed gwaith da yn ystod blwyddyn gyntaf y Strategaeth Lleihau Carbon newydd. Oherwydd gwelliannau seilwaith a gwelliannau parhaus i effeithlonrwydd, llwyddwyd i weithredu 11 y cant yn is na'r flwyddyn sylfaen, sef gostyngiad llawer mwy na'r gostyngiad 6 y cant sydd ei angen o un flwyddyn i'r nesaf.

### Mynediad at wybodaeth

Mae'r Comisiwn yn cyhoeddi Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol, sy'n rhoi trosolwg o'n perfformiad bob blwyddyn, gan gysylltu perfformiad â'r arian a wariwn ar ddarparu gwasanaethau i'r Cynulliad. Mae'r Comisiwn yn cyhoeddi amrywiaeth o wybodaeth arall am ei gyllideb flynyddol a'i brif bolisïau sefydliadol ar wefan y Cynulliad.

Mae'r Comisiwn yn fodlon darparu rhagor o wybodaeth os hoffech ddysgu rhagor am ein gwaith:

– Gallwch gysylltu â ni yma: **www.cynulliad.cymru/cysylltu**

– Mae canllawiau ar **fynediad at wybodaeth** ar gael ar wefan y Cynulliad.

# Mesurau Perfformiad Corfforaethol: Cyflawniad ar sail Nodau Strategol

Crynodeb o'r wybodaeth fanylach sy'n dilyn am y dangosyddion perfformiad allweddol (KPI):

| Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf | Ebrill 2014 – Mawrth 2015 | Ebrill 2015 – Mawrth 2016 |
|---|---|---|
| **KPI 1: Prydlondeb a Chyflenwi Gwasanaethau**<br>Perfformiad cyson uchel o ran cyhoeddi papurau pwyllgor, papurau briffio a Chofnod y Trafodion yn brydlon, a hynny er i ni gael cyfnod prysur iawn o ran gwaith craffu deddfwriaethol. | gwyrdd | gwyrdd |
| **KPI 2: Datblygiad Proffesiynol**<br>Yn dilyn adolygiad o'r ddarpariaeth dysgu iaith ar gyfer Aelodau a staff, crëwyd tîm Sgiliau Iaith. Parhaodd Comisiwn y Cynulliad i rannu ei brofiad a'i arbenigedd o ran gweithio'n ddwyieithog ac fe'i cynrychiolwyd ar weithgor y Gweinidog ar y Gymraeg ym maes gweinyddu llywodraeth leol a datblygu economaidd. | oren | gwyrdd |

| Ymgysylltu â phobl Cymru a Hyrwyddo Cymru | Ebrill 2014 – Mawrth 2015 | Ebrill 2015 – Mawrth 2016 |
|---|---|---|
| **KPI 3: Ymgysylltu yn y Cynulliad**<br>Er i nifer yr ymwelwyr ostwng, cynyddodd y nifer sy'n ymgysylltu â'r Cynulliad drwy fynd ar deithiau. Parhaodd lefelau boddhad yr ymwelwyr i fod yn uwch na'r targed. | gwyrdd | gwyrdd |
| **KPI 4: Proffil Allanol y Cynulliad**<br>Drwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, datblygwyd ein presenoldeb ar-lein yn sylweddol. Mae gwaith y pwyllgorau yn parhau i gael cryn sylw yn y cyfryngau. | gwyrdd | gwyrdd |

| Defnyddio adnoddau'n ddoeth | Ebrill 2014 – Mawrth 2015 | Ebrill 2015 – Mawrth 2016 |
|---|---|---|
| **KPI 5: Perfformiad Cyllidebol**<br>Sefyllfa gref: sicrhawyd tanwariant o 0.13% o'r gyllideb, sydd ymhell o fewn y targed o < 1%; rhagorwyd ar y targed gwerth am arian hefyd. | gwyrdd | gwyrdd |
| **KPI 6: Staff**<br>Parhawyd i ganolbwyntio'n strategol ar reoli absenoldeb, ac roedd rhywfaint o bryder ynghylch lefelau absenoldeb. Cyflwynwyd gwelliannau i'n dulliau o reoli perfformiad a datblygu staff a chafwyd adborth cadarnhaol. | oren | oren |
| **KPI 7: Gwasanaeth Cwsmeriaid TGCh**<br>Gwnaed gwelliannau yn y maes drwy hyfforddi asiantau'r ddesg gymorth yn barhaus. Cynyddodd sgoriau boddhad cwsmeriaid yn y maes gan adlewyrchu hyn. | oren | oren |
| **KPI 8: Llywodraethu**<br>Er gwaethaf cynnydd yn nifer y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a ddaeth i law, llwyddwyd i ateb mwy o fewn y terfyn amser statudol. | gwyrdd | gwyrdd |

| **KPI 9: Cynaliadwyedd**<br>Parhawyd i wneud gwaith da o ran y gostyngiad newydd yng nghyfanswm y targed ynni. Gosodwyd targed newydd o anfon 'dim gwastraff i safleoedd tirlenwi erbyn mis Mawrth 2021' a dechreuwyd gweithio tuag at gyrraedd y targed. | gwyrdd | gwyrdd |
|---|---|---|

| Hynt blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol | Ebrill 2014 – Mawrth 2015 | Ebrill 2015 – Mawrth 2016 |
|---|---|---|
| **Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf**<br>Cynorthwyodd swyddogion y Comisiwn y pwyllgorau i gynhyrchu adroddiadau etifeddiaeth a oedd yn nodi effaith eu gwaith yn ystod y Pedwerydd Cynulliad ac yn gwneud argymhellion i lywio gwaith pwyllgorau dilynol y Pumed Cynulliad. | gwyrdd | gwyrdd |
| **Ymgysylltu â phobl Cymru a Hyrwyddo Cymru**<br>Parhaodd lefelau da o ymgysylltiad â busnes y Cynulliad. Gwelwyd gwelliannau sylweddol yn lefel yr ymgysylltiad drwy'r cyfryngau cymdeithasol. | gwyrdd | gwyrdd |
| **Defnyddio adnoddau'n ddoeth**<br>Daethpwyd yn agos at gwblhau'r gwaith o adnewyddu systemau TGCh Siambr y Senedd a gwella ergonomeg y gweithleoedd; llwyddwyd i wella rhwydweithiau diwifr yr holl swyddfeydd etholaeth a gwaned newidiadau i'n helpu i ddefnyddio llai o ynni a chyflawni ein targedau cynaliadwyedd. | gwyrdd | gwyrdd |

| Arolwg o foddhad yr Aelodau | Ebrill 2014 – Mawrth 2015 | Ebrill 2015 – Mawrth 2016 |
|---|---|---|
| **Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf**<br>Roedd y sgoriau cyffredinol ar gyfer cymorth yn y Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd pwyllgor wedi gwella'n sylweddol yn arolwg boddhad 2015, gan gynyddu o 7.7 i 8.7 ac o 7.9 i 8.4 yn y drefn honno. | gwyrdd | gwyrdd |
| **Ymgysylltu â phobl Cymru a Hyrwyddo Cymru**<br>Roedd gwelliant amlwg yn arolwg boddhad 2015 yn y sgôr cyffredinol ar gyfer effeithiolrwydd y gwaith ymgysylltu a wneir. Cynyddodd y sgôr o 6.7 i 7.4. | oren | gwyrdd |
| **Defnyddio adnoddau'n ddoeth**<br>Yn arolwg boddhad 2015, roedd gwelliant sylweddol yn y sgoriau ar gyfer amrywiaeth o'r gwasanaethau a ddarperir i Aelodau, gan gynnwys lwfansau a staffio a TGCh, a gynyddodd o 8.7 i 9.3 ac o 7.5 i 8.4 yn y drefn honno. | gwyrdd | gwyrdd |

**Allwedd**

**COCH:** Mae materion sylweddol yn effeithio ar y gallu i gyflawni amcanion busnes. I sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni, mae angen newidiadau o ran amser, costau a/neu gwmpas.

**OREN:** Mae materion neu risgiau y mae angen mynd i'r afael â nhw. Serch hynny, mae'n bosibl y bydd modd cyflawni'n llwyddiannus heb effeithio rhyw lawer ar y gyllideb, safon gwasanaethau na dyddiadau targed.

**GWYRDD:** Mae gwaith yn bodloni'r safonau y cytunwyd arnynt neu yn mynd rhagddo fel y cynlluniwyd. Mae pob risg sy'n hysbys yn cael ei rheoli.

# Nod: Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf

## KPI 1: Prydlondeb a chyflenwi gwasanaethau

| % y papurau pwyllgor a gyhoeddwyd o fewn terfynau amser y cytunwyd arnynt â phob pwyllgor | | | |
|---|---|---|---|
| **Targed** | **Ebrill 2014 – Mawrth 2015** | **Ebrill 2015 – Mawrth 2016** | **Tuedd** |
| **100%** | **95.12%** | ● **93.27%** | ▽ |

Noder: Y cyfartaledd rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016.

| % yr ymholiadau i'r gwasanaeth ymchwil a atebwyd o fewn terfyn amser y cytunwyd arno | | | |
|---|---|---|---|
| **Targed** | **Ebrill 2014 – Mawrth 2015** | **Ebrill 2015 – Mawrth 2016** | **Tuedd** |
| **100%** | **99%** | ● **98.5%** | □ |

Noder: Y cyfartaledd rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016.

| % Cofnod Trafodion y Cyfarfod Llawn a gyhoeddwyd o fewn y terfyn amser | | | |
|---|---|---|---|
| **Targed** | **Ebrill 2014 – Mawrth 2015** | **Ebrill 2015 – Mawrth 2016** | **Tuedd** |
| **100%** | **99%** | ● **99%** | □ |

Noder: Y cyfartaledd rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016.

| Nifer y cyfarfodydd pwyllgor/Cyfarfod Llawn yr effeithiwyd arnynt oherwydd diffygion yng ngwasanaethau'r Comisiwn | | | |
|---|---|---|---|
| **Targed** | **Ebrill 2014 – Mawrth 2015** | **Ebrill 2015 – Mawrth 2016** | **Tuedd** |
| **Dim** | **5 allan o 368 (1.4%)** | ● **2 allan o 345 (0.6%)** | △ |

Noder: Y cyfanswm rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016.

| % Cofnod Trafodion y pwyllgorau a gyhoeddwyd o fewn 5 diwrnod gwaith | | | |
|---|---|---|---|
| **Targed** | **Ebrill 2014 – Mawrth 2015** | **Ebrill 2015 – Mawrth 2016** | **Tuedd** |
| **100%** | **96%** | ● **99%** | △ |

Noder: Y cyfartaledd rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016.

| % y rhestrau wedi'u didoli ar gyfer trafodion Bil yng Nghyfnod 3 a gyhoeddwyd erbyn terfyn amser y Rheolau Sefydlog | | | |
|---|---|---|---|
| **Targed** | **Ebrill 2014 – Mawrth 2015** | **Ebrill 2015 – Mawrth 2016** | **Tuedd** |
| **>2 ddiwrnod o drafod** | **100%** | **100%** | ☐ |

Noder: Y cyfartaledd rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016. Gweler yr amser a dreuliwyd ar Gyfnodau pob darn o ddeddfwriaeth yn y graff yn Atodiad A.

## KPI 2: Datblygiad proffesiynol

| Nifer y staff sy'n dysgu Cymraeg | | | |
|---|---|---|---|
| **Targed** | **Ebrill 2014 – Mawrth 2015** | **Ebrill 2015 – Mawrth 2016** | **Tuedd** |
| **Cynyddu nifer y dysgwyr Cymraeg** | **45** | **46** | ☐ |

Noder: Fel ym mis Mawrth 2016.

## Hynt blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol

**Galluogi'r Cynulliad i fod mor effeithiol â phosibl drwy'r gefnogaeth a ddarperir gennym, a thrwy'r camau nesaf yn ein strategaeth TGCh**

### Ebrill 2015 – Mawrth 2016

Sicrhaodd y Comisiwn fod arbenigedd proffesiynol gan wasanaethau mewnol yn ogystal â chyrff allanol ar gael i alluogi Aelodau i gwblhau nifer o ymchwiliadau pwysig yn llwyddiannus, er enghraifft yr ymchwiliadau i dlodi, i ynni ac i adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru. Cafodd y pwyllgorau gymorth wrth ymdrin â chyfnod prysur iawn o waith craffu deddfwriaethol, wrth gynnal adolygiadau o brif weithdrefnau'r Cynulliad (deddfu a'r system ddeisebau), ac wrth ddechrau'r rhaglen fwyaf uchelgeisiol erioed o waith craffu ar y cyd, sef ystyried Bil drafft Cymru ar draws sawl pwyllgor.

Cwblhawyd y gwaith o ddarparu gwasanaeth di-wifr mwy hyblyg a'r potensial o fand eang mwy cyflym mewn swyddfeydd etholaeth tua diwedd 2015, gan arbed tua £40,000 y flwyddyn i'r Cynulliad. Bwriedir cwblhau prosiect adnewyddu'r Siambr yn ôl y disgwyl ym mis Ebrill 2016. Fel rhan o'r gwaith hwn, achubodd y Comisiwn ar y cyfle i wella ergonomeg gweithfannau'r Aelodau a gwella hygyrchedd. Cafodd seinyddion a meicroffonau pob desg eu huwchraddio hefyd, er mwyn gwneud y sain yn gliriach ym mhob rhan o'r Siambr. Cyflwynwyd meddalwedd gynadledda newydd hefyd i reoli busnes y Cyfarfod Llawn, gan gynnwys yr agenda, y rhestr siaradwyr, gwybodaeth am weithdrefnau, pleidleisio ac anfon negeseuon.

Aed ati i ddiweddaru'r wefan mewn cydweithrediad a staff ym mhob rhan o'r Comisiwn ac fe'i lansiwyd cyn dechrau'r Pumed Cynulliad. Cafodd sawl agwedd ar y wefan ei hadolygu a'i hadnewyddu i'w gwneud yn haws i ymwelwyr ymgysylltu â'r Cynulliad a chael gafael ar wybodaeth berthnasol.

**Gwell gwasanaethau dwyieithog**

### Ebrill 2015 – Mawrth 2016

Yn unol â gofynion y Cynllun Ieithoedd Swyddogol a'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog, lluniodd pob gwasanaeth Gynllun Iaith. Roedd y cynlluniau'n disgrifio sut y byddai Penaethiaid Gwasanaethau yn trefnu i ddarparu gwasanaethau dwyieithog ym mhob maes a sicrhau bod gan bob aelod o staff y sgiliau i ddarparu'r gwasanaethau hynny. Cyfeirir at y cynlluniau pan fydd swyddi gwag ar gael er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ag uchelgais Comisiwn y Cynulliad i fod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog sy'n darparu gwasanaethau dwyieithog o'r radd flaenaf.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu adnodd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith yn fewnol. Bydd yr adnodd yn rhan o'r hyfforddiant cynefino a ddarperir i bob aelod newydd o staff. Bydd hyn yn sicrhau bod pob aelod newydd o staff yn deall yr hyn y disgwylir iddynt ei wneud ac yn ymrwymo i roi'r cynllun ar waith. Yn dilyn adolygiad o'r ddarpariaeth dysgu iaith ar gyfer Aelodau, staff cymorth a staff y Comisiwn, argymhellwyd creu tîm Sgiliau Iaith. Penodwyd Rheolwr-Diwtor ac mae'r gwaith o recriwtio tiwtoriaid yn mynd rhagddo o hyd.

Parhaodd Comisiwn y Cynulliad i rannu ei brofiad a'i arbenigedd o ran gweithio'n ddwyieithog ac fe'i cynrychiolwyd ar weithgor y Gweinidog ar y Gymraeg ym maes gweinyddu llywodraeth leol a datblygu economaidd.

**Y tu hwnt i'r Pedwerydd Cynulliad**

### Ebrill 2015 – Mawrth 2016

Cwblhawyd ein paratoadau ar gyfer diddymu'r Pedwerydd Cynulliad a throsglwyddo i'r Pumed Cynulliad. Gwnaed penderfyniadau allweddol gan y Bwrdd Taliadau a'r Comisiwn, a datblygwyd cynlluniau cyflawni. Cyhoeddwyd canllawiau ar gyfer Aelodau ac eraill, ac fe barhaodd y gwaith o gydgysylltu â chyrff allanol y mae angen eu cynnwys yn y gwaith hwn, fel y Comisiwn Etholiadol.

Cynorthwywyd y Comisiwn a'r pwyllgorau gan swyddogion y Comisiwn i lunio adroddiadau etifeddiaeth a oedd yn disgrifio effaith eu gwaith yn ystod y Pedwerydd Cynulliad ac yn gwneud argymhellion i lywio gwaith eu holynwyr yn y Pumed Cynulliad. Roedd y rhain yn cynnwys ystyriaeth fanwl (gan y Pwyllgor Busnes yn ei adroddiad etifeddiaeth) o ffyrdd amrywiol o wella'r drefn o gyflawni busnes y Cynulliad. Gwnaeth y Pwyllgor Busnes sawl newid pwysig i'r gweithdrefnau ar gyfer craffu ar ddeddfwriaeth hefyd.

## Arolwg o foddhad yr Aelodau

Ar raddfa o 1-10 sut y byddech yn barnu'r cymorth cyffredinol a ddarperir ar gyfer:

| | Ebrill 2014 – Mawrth 2015 | Ebrill 2015 – Mawrth 2016 | Tuedd |
|---|---|---|---|
| **Y Cyfarfodydd Llawn** | 7.70 | 8.70 | ▲ |
| **Cyfarfodydd Pwyllgor** | 7.90 | 8.40 | ▲ |
| **Gweithio drwy gyfrwng eu dewis iaith** | 8.90 | 8.80 | ■ |

Noder: Mae'r arolygon yn cael eu cwblhau bob blwyddyn a chesglir y canlyniadau ym mis Awst.

# Nod: Ymgysylltu â phobl Cymru a Hyrwyddo Cymru

## KPI 3: Ymgysylltu â'r Cynulliad

| Nifer yr ymwelwyr â'r Senedd / Pierhead | | | |
|---|---|---|---|
| **Targed** | **Ebrill 2014 – Mawrth 2015** | **Ebrill 2015 – Mawrth 2016** | **Tuedd** |
| **Y cynnydd o gymharu â'r un cyfnod y llynedd** | **168,348** | ● **163,158** | ▽ |

Noder: Y cyfanswm rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016. Gostyngodd nifer yr ymwelwyr 3.1% o gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Fodd bynnag, cynyddodd nifer yr ymwelwyr sy'n mynd ar deithiau tywys (fel y dangosir isod) yn ystod yr un cyfnod, gan gynnig mwy o gyfleoedd i ni ymgysylltu ag ymwelwyr.

| Nifer yr ymwelwyr ar deithiau | | | |
|---|---|---|---|
| **Targed** | **Ebrill 2014 – Mawrth 2015** | **Ebrill 2015 – Mawrth 2016** | **Tuedd** |
| **Y cynnydd o gymharu â'r un cyfnod y llynedd** | **17,168** | ● **17,663** | △ |

Noder: Y cyfanswm rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016. Cynyddodd nifer yr ymwelwyr sy'n ymgysylltu â ni drwy fynd ar deithiau tywys yn hytrach nag ymweld â'r ystâd yn 'annibynnol' 2.9% o gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

| Nifer y digwyddiadau a drefnwyd ar yr ystâd | | | |
|---|---|---|---|
| **Targed** | **Ebrill 2014 – Mawrth 2015** | **Ebrill 2015 – Mawrth 2016** | **Tuedd** |
| **Y cynnydd o gymharu â'r un cyfnod y llynedd** | **296** | ● **292** | □ |

Noder: Y cyfanswm rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016. Nid oedd cynnydd yn nifer y digwyddiadau, yn bennaf oherwydd i ni barhau i ganolbwyntio ar ddigwyddiadau mwy, sy'n para am gyfnodau hirach o amser.

| Lefelau boddhad ymwelwyr | | | |
|---|---|---|---|
| **Targed** | **Ebrill 2014 – Mawrth 2015** | **Ebrill 2015 – Mawrth 2016** | **Tuedd** |
| **80% sgorau da / boddhaol** | **90%** | ● **87.5%** | ▽ |

Noder: Y cyfartaledd rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016.

| Digwyddiadau a drefnwyd ar y cyd â Chanolfan Llywodraethiant Cymru | | | |
|---|---|---|---|
| **Targed** | **Ebrill 2014 – Mawrth 2015** | **Ebrill 2015 – Mawrth 2016** | **Tuedd** |
| **-** | **6** | **6** | ☐ |

Noder: Y cyfanswm rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016.

## KPI 4: Proffil allanol y Cynulliad

| Adroddiadau pwyllgor a hyrwyddwyd gan y cyfryngau darlledu neu'r wasg | | | |
|---|---|---|---|
| **Targed** | **Ebrill 2014 – Mawrth 2015** | **Ebrill 2015 – Mawrth 2016** | **Tuedd** |
| **100%** | **96%** | ● **100%** | △ |

Noder: Y cyfartaledd rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016. Rhoddwyd cryn sylw yn y cyfryngau i 60 o adroddiadau pwyllgorau'r Cynulliad yn ystod y cyfnod. Anfonwyd 10 o adroddiadau etifeddiaeth y Pedwerydd Cynulliad allan mewn un datganiad i'r wasg a rhoddwyd sylw i'r rhain gan sawl un o'r cyfryngau.

| Traffig ar y we –ymwelwyr / ymweliadau / agor tudalen benodol | | | |
|---|---|---|---|
| **Targed** | **Ebrill 2014 – Mawrth 2015** | **Ebrill 2015 – Mawrth 2016** | **Tuedd** |
| **Anelir at gynyddu hyn ym mhob cyfnod** | **-** | **42,374 o ymwelwyr**<br>**80,782 o ymweliadau**<br>**274,905 yn agor tudalen benodol** | **-** |

Noder:  Y cyfartaledd rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016. Newidiwyd y dull o fesur er mwyn adlewyrchu gweithgarwch ar y wefan yn well (**www.cynulliad.cymru** a **www.assembly.wales**), felly nid oes dim data cymaradwy. Fodd bynnag, roedd cynnydd cyffredinol yn y niferoedd ers yr adroddiad blaenorol.

| Y nifer sy'n agor blog y Gwasanaeth Ymchwil | | | |
|---|---|---|---|
| **Targed** | **Ebrill 2014 – Mawrth 2015** | **Ebrill 2015 – Mawrth 2016** | **Tuedd** |
| **Anelir at gynnal hyn ym mhob cyfnod** | **-** | **90,004** | **-** |

Noder: Y cyfanswm rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016. Mae blog y Gwasanaeth Ymchwil yn ffordd gyfleus o gynorthwyo'r Aelodau yn eu gwaith craffu drwy ddefnyddio adnoddau'n effeithlon ac mae'n fesur da o ymgysylltu ac o broffil allanol y Cynulliad.  Nid oes data i gymharu, gan fod hwn yn fesur newydd ar gyfer blwyddyn yr adroddiad. Fodd bynnag, roedd cynnydd sylweddol yn nifer y bobl a agorodd y blog o gymharu â'r adroddiad blaenorol.

| Facebook - Hoffi | | | |
|---|---|---|---|
| **Targed** | **Ebrill 2014 – Mawrth 2015** | **Ebrill 2015 – Mawrth 2016** | **Tuedd** |
| **Anelir at gynnal hyn ym mhob cyfnod** | **3,396 wedi ein 'hoffi'** | ● **4,749 wedi ein 'hoffi'** | △ |

Noder: Y cyfanswm ar ddiwedd mis Mawrth 2016. Gwnaed rhai newidiadau i'r strategaeth ar gyfer Facebook, gan ddefnyddio mwy o gynnwys fideo, mwy o gynnwys ynglŷn ag ymgyrchoedd ac ymwneud yn fwy â sefydliadau eraill sy'n defnyddio Facebook, fel Awdurdodau Lleol ac elusennau. Nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys ffigurau ymgysylltu gan nad oes modd eu coladu gan ddefnyddio dulliau cymaradwy mwyach.

| Twitter – Dilynwyr (y prif gyfrifon corfforaethol) | | | |
|---|---|---|---|
| **Targed** | **Ebrill 2014 – Mawrth 2015** | **Ebrill 2015 – Mawrth 2016** | **Tuedd** |
| **Anelir at gynnal hyn ym mhob cyfnod** | **-** | **36,193 o ddilynwyr** | **-** |

Noder: Y cyfanswm ar ddiwedd mis Mawrth 2016. Parhaodd nifer ein dilynwyr ar Twitter i gynyddu o gymharu â chyfnod yr adroddiad diwethaf yn rhannol am fod mwy o gynnwys yn cael ei rannu ar Twitter bob dydd. Mae'n werth nodi'r sylw a ddenwyd yn sgil canlyniad mynegai LGBT Stonewall, digwyddiad lansio Tim Peake yn y Senedd a'r wythnos #AtalBwlio. Nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys ffigurau ymgysylltu gan nad oes modd eu coladu gan ddefnyddio dulliau cymaradwy mwyach.

| Twitter – Dilynwyr (cyfrifon eraill) | | | |
|---|---|---|---|
| **Targed** | **Ebrill 2014 – Mawrth 2015** | **Ebrill 2015 – Mawrth 2016** | **Tuedd** |
| **Anelir at gynnal hyn ym mhob cyfnod** | **-** | **23,024** | **-** |

Noder: Y cyfanswm ar ddiwedd mis Mawrth 2016. Nid oes data i gymharu, gan fod hwn yn fesur newydd ar gyfer blwyddyn yr adroddiad. Fodd bynnag, fel y prif gyfrifon Twitter, parhaodd nifer y dilynwyr i gynyddu ar gyfer Busnes y Cynulliad o gymharu â chyfnod yr adroddiad diwethaf.

| YouTube – ymwelwyr / munudau a wyliwyd | | | |
|---|---|---|---|
| **Targed** | **Ebrill 2014 – Mawrth 2015** | **Ebrill 2015 – Mawrth 2016** | **Tuedd** |
| **Anelir at gynnal hyn ym mhob cyfnod** | **24,699 o ymweliadau gwyliwyd 42,656 o funudau** | ● **59,509 o ymweliadau gwyliwyd 64,597 o funudau** | △ |

Noder: y cyfanswm rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016. Cynyddodd nifer gyffredinol yr ymweliadau ag YouTube am fod ein fideos YouTube yn cael eu hyrwyddo'n fwy effeithiol bellach ar ein sianelau eraill fel ein gwefan a'n cyfrifon Twitter/Facebook.

| Defnydd o Senedd.tv – ymwelwyr / defnyddwyr | | | |
|---|---|---|---|
| **Targed** | **Ebrill 2014 – Mawrth 2015** | **Ebrill 2015 – Mawrth 2016** | **Tuedd** |
| **Anelir at gynnal hyn ym mhob cyfnod** | **165,651 o ymweliadau**<br>**24,298 o ddefnyddwyr** | ● **280,284 o ymweliadau**<br>**44,839 o ddefnyddwyr** | △ |

Noder: Y cyfanswm rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016. Parhaodd y cynnydd yn y ffigurau ar gyfer y cyfnod i adlewyrchu'r gwelliannau sylweddol a wnaed i Senedd.tv.

| Nifer yr ysgolion newydd sy'n ymgysylltu â thîm allgymorth y gwasanaeth addysg am y tro cyntaf | | | |
|---|---|---|---|
| **Targed** | **Ebrill 2014 – Mawrth 2015** | **Ebrill 2015 – Mawrth 2016** | **Tuedd** |
| **Anelir at gynyddu hyn ym mhob cyfnod** | **97 (32 allgymorth)** | ● **131 (38 allgymorth)** | △ |

Noder: Y cyfanswm rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016. Gwnaed ymrwymiad i ymgysylltu â phob ysgol uwchradd yng Nghymru erbyn diwedd y Pedwerydd Cynulliad. Er i ni ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu, ni fanteisiodd 14 o ysgolion ar y cyfle i ymgysylltu.

| Ymgysylltu rhyngwladol yn y Cynulliad ac oddi yno | | | |
|---|---|---|---|
| **Targed** | **Ebrill 2014 – Mawrth 2015** | **Ebrill 2015 – Mawrth 2016** | **Tuedd** |
| **Anelir at gynyddu hyn ym mhob cyfnod** | **225** | ● **239** | △ |

Noder: Y cyfanswm rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016. Croesawodd y Cynulliad amrywiaeth o gynrychiolwyr o bob rhan o'r byd, yn ogystal ag ymweld â'n cymheiriaid i hyrwyddo Cymru a'r Cynulliad. Roedd hynny'n cynnwys croesawu dirprwyaethau o Seneddau Gwlad yr Iâ, yr Almaen a Georgia i ddysgu am y Cynulliad fel enghraifft dda o ddemocratiaeth seneddol.

## Hynt blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol

**Ymgysylltu'n well â phobl Cymru**

### Ebrill 2015 – Mawrth 2016

Cymerodd pwyllgorau ran mewn amryw weithgareddau i ymgysylltu â'r cyhoedd, er mwyn ehangu'r amrywiaeth o bobl sy'n cyfrannu at eu gwaith, gan gynnwys:

- cymryd rhan yn wythnos Senedd@Abertawe
- cynnal arolwg ynglŷn â gwaith athrawon cyflenwi. Rhoddwyd sylw i ganlyniadau'r arolwg yn y newyddion cyn i'r ymchwiliad ddod i ben
- cyhoeddi'r cylchlythyr cyntaf yn rhoi golwg gyffredinol ar waith y pwyllgorau a deddfwriaeth y Cynulliad

Gwnaed rhai newidiadau sylweddol ar y wefan yn ystod y cyfnod hwn gan gynnwys defnyddio erthyglau newyddion i hyrwyddo digwyddiadau a ffyrdd mwy soffistigedig o hyrwyddo erthyglau newyddion ar yr hafanddalen.

Roedd ymgyrch Senedd 10 yn llwyddiant, rhwng mis Ionawr a mis Mawrth, fel enghraifft o ymgyrch amlgyfrwng llawn cynnwys. Dechreuodd yr ymgyrch drwy rannu atgofion ar ffurf lluniau o adeilad y Senedd, fideos o'r Bae o'r awyr, anfon trydariadau byw o ddigwyddiadau a rhyngweithio â sefydliadau eraill ac aelodau o'r cyhoedd a oedd am ymuno yn y dathlu. Roedd trefniadau ymgyrch Senedd@Abertawe ym mis Hydref yn llwyddiannus hefyd.

## Arolwg o foddhad yr Aelodau

Ar raddfa o 1-10 sut y byddech yn barnu'r cymorth cyffredinol a ddarperir ar gyfer:

| | Ebrill 2014 – Mawrth 2015 | Ebrill 2015 – Mawrth 2016 | Tuedd |
|---|---|---|---|
| **Ymgysylltu â phobl Cymru** | **6.70** | **7.40** | ▲ |

# Nod: Defnyddio adnoddau'n ddoeth

## KPI 5: Perfformiad cyllidebol

| **Y Gyllideb - % y rhagolwg tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn** | | | |
|---|---|---|---|
| **Targed** | **Ebrill 2014 – Mawrth 2015** | **Ebrill 2015 – Mawrth 2016** | **Tuedd** |
| **<1%** | **0.10%** | ● **0.13%** | □ |

Noder: Ar ddiwedd mis Mawrth 2016. Rhoddwyd cynlluniau gwariant yn nhrefn blaenoriaeth yn ystod y flwyddyn er mwyn defnyddio adnoddau yn y ffordd orau a sicrhau gwerth am arian.

| **Y Gyllideb - gwariant o gymharu â'r proffil** | | | |
|---|---|---|---|
| **Targed** | **Ebrill 2014 – Mawrth 2015** | **Ebrill 2015 – Mawrth 2016** | **Tuedd** |
| **O fewn 2% i'r proffil** | **0.02%** | ● **1.54%** | □ |

Noder: Ar ddiwedd mis Mawrth 2016. Gwnaethom fonitro gwariant drwy'r flwyddyn, gan gydweithio â rheolwyr y gyllideb i fonitro unrhyw achosion o wyro o'r cynlluniau gwasanaeth ac er mwyn rheoli ein sefyllfa ariannol yn effeithiol.

| **Targed gwerth am arian a chyflawniad** | | | |
|---|---|---|---|
| **Targed** | **Ebrill 2014 – Mawrth 2015** | **Ebrill 2015 – Mawrth 2016** | **Tuedd** |
| **£500,000** | **£585,000** | ● **£866,000** | △ |

Noder: Ar ddiwedd mis Mawrth 2016. Mae cyfanswm yr arian a arbedwyd yn cynnwys £132,000 o arbedion gweithredol a daw'r gweddill o reoli staff a swyddi gwag. Cafodd yr holl arian a arbedwyd ei ailfuddsoddi er mwyn gwella gwasanaethau'r Comisiwn.

## KPI 6: Staff

| % absenoldeb oherwydd salwch | | | |
|---|---|---|---|
| **Targed** | **Ebrill 2014 – Mawrth 2015** | **Ebrill 2015 – Mawrth 2016** | **Tuedd** |
| **<3%** | **3.30%** | ● **3.68%** | ▽ |

Noder: Y cyfartaledd treigl blynyddol, ym mis Mawrth 2016. Parhawyd i ganolbwyntio'n strategol ar reoli absenoldebau. Rhoddwyd sylw yn arbennig i strategaethau amgen ar gyfer cefnogi achosion cynyddol o straen ac iechyd meddwl, a oedd yn adlewyrchu tuedd gynyddol ar draws y sector cyhoeddus. Dylid nodi bod y ffigurau absenoldeb yn arbennig o sensitif i achosion unigol o absenoldeb hirdymor am fod y Comisiwn yn cyflogi niferoedd cymharol fach o staff ac roedd cynnydd yn nifer yr achosion o absenoldeb hirdymor, yn enwedig yn ystod y cyfnod adrodd. Mae absenoldebau yn cael eu cefnogi'n weithredol gan Reolwyr Llinell, Adnoddau Dynol a chymorth Iechyd Galwedigaethol.

| % adolygiadau perfformiad staff a gwblhawyd | | | |
|---|---|---|---|
| **Targed** | **Ebrill 2014 – Mawrth 2015** | **Ebrill 2015 – Mawrth 2016** | **Tuedd** |
| **100%** | **83%** | ● **86%** | △ |

Noder: Fel ym mis Mawrth 2016.

| Lefel ymgysylltiad staff (o'r arolwg staff) | | | |
|---|---|---|---|
| **Targed** | **Ebrill 2014 – Mawrth 2015** | **Ebrill 2015 – Mawrth 2016** | **Tuedd** |
| **Canolrif y Gwasanaeth Sifil** | - | ● **72%** | - |

Noder: Mae Ymgysylltu â Chyflogeion yn fesur sy'n seiliedig ar bum cwestiwn craidd, ac mae'n ffordd werthfawr o feincnodi. Yr arolwg staff ym mis Mai 2015 oedd y tro cyntaf i'r Cynulliad gynnwys y mesur hwn. Wrth feincnodi yn erbyn y 101 o sefydliadau unigol y Gwasanaeth Sifil o bob rhan o'r DU a gymerodd ran yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil, dim ond 3 sydd â sgôr ymgysylltu sy'n uwch na'r Cynulliad. O blith y sefydliadau hynny y mae eu prif ganolfan yng Nghymru, sgôr ymgysylltu'r Cynulliad oedd yr uchaf. Canolrif y Gwasanaeth Sifil yw 59%. Caiff yr arolwg staff nesaf ei lansio ym mis Mai 2016.

| Nifer y staff - nifer y staff a'r nifer cyfwerth ag amser llawn (FTE) | | | |
|---|---|---|---|
| **Targed** | **Ebrill 2014 – Mawrth 2015** | **Ebrill 2015 – Mawrth 2016** | **Tuedd** |
| - | **nifer y staff 437**<br>**418.20 FTE** | **nifer y staff 450**<br>**430.26 FTE** | - |

Noder: Fel ym mis Mawrth 2016. Parhaodd nifer y staff yn sefydlog yn ystod y cyfnod.

## KPI 7: Gwasanaeth Cwsmeriaid TGCh

**% o dargedau'r cytundeb lefel gwasanaeth a gyflawnwyd ar gyfer pob achos**

| Targed | Ebrill 2014 – Mawrth 2015 | Ebrill 2015 – Mawrth 2016 | Tuedd |
|---|---|---|---|
| 100% | 82.64% | ● 89.12% | △ |

Noder: Y cyfartaledd rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016. Llwyddwyd i gyflawni lefel gynyddol o dargedau'r cytundeb lefel gwasanaeth yn ystod 6 mis olaf y cyfnod. Roedd hynny'n bennaf oherwydd y rhaglen hyfforddiant barhaus ar gyfer asiantau'r ddesg gymorth a'i gwaneth yn bosibl iddynt ddatrys mwy o alwadau ar y 'cam cyntaf' yn hytrach na'u trosglwyddo i'r ail reng o gynorthwywyr.

**Sgôr boddhad cwsmeriaid ar gyfer ymdrin ag achosion (allan o 9)**

| Targed | Ebrill 2014 – Mawrth 2015 | Ebrill 2015 – Mawrth 2016 | Tuedd |
|---|---|---|---|
| 9 | 7.9 | ● 8.6 | △ |

Noder: Y cyfartaledd rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016.

## KPI 8: Llywodraethu

**Dyddiau a gymerwyd ar gyfartaledd i dalu Aelodau a chyflenwyr o gymharu â'r targed**

| Targed | Ebrill 2014 – Mawrth 2015 | Ebrill 2015 – Mawrth 2016 | Tuedd |
|---|---|---|---|
| <10 diwrnod | 3.94 | ● 3.80 | △ |

Noder: Y cyfartaledd rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016.

**Nifer y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a atebwyd**

| Targed | Ebrill 2014 – Mawrth 2015 | Ebrill 2015 – Mawrth 2016 | Tuedd |
|---|---|---|---|
| - | 63 | 69 | - |

Noder: Y cyfanswm rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016.

**% y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a atebwyd yn unol â'r terfyn amser statudol**

| Targed | Ebrill 2014 – Mawrth 2015 | Ebrill 2015 – Mawrth 2016 | Tuedd |
|---|---|---|---|
| 100% | 94% | ● 99% | △ |

Noder: Y cyfanswm rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016. Methwyd ag ateb un cais o fewn 20 diwrnod oherwydd gwall wrth gyfrifo'r terfyn amser dros gyfnod y Pasg.

## KPI 9: Cynaliadwyedd

| Cyfanswm ôl troed ynni (Ystâd Bae Caerdydd) | | | |
|---|---|---|---|
| **Targed** | **Ebrill 2014 – Mawrth 2015** | **Ebrill 2015 – Mawrth 2016** | **Tuedd** |
| **Gostyngiad o 30% yng nghyfanswm yr allyriadau ynni erbyn 2021** | **-4.0%** | ● **7.6%** | △ |

Noder: Fel ym mis Mawrth 2016. Yn ystod tymor cyntaf ein Strategaeth Lleihau Carbon newydd, llwyddwyd i leihau allyriadau 3.4%, sy'n gam tuag at ein targed uchelgeisiol o leihau allyriadau 30% erbyn blwyddyn ariannol 2020/21. Drwy wneud ychydig o welliannau seilwaith a gwelliannau effeithlonrwydd parhaus, cynyddodd hyn 7.6% eto dros y 6 mis diwethaf. Rydym bellach yn gweithredu 11% yn is na'r flwyddyn sylfaen, sef gostyngiad sylweddol uwch na'r gostyngiad 6% sydd ei angen o un flwyddyn i'r nesaf.

| Gwastraff i safleoedd tirlenwi | | | |
|---|---|---|---|
| **Targed** | **Ebrill 2014 – Mawrth 2015** | **Ebrill 2015 – Mawrth 2016** | **Tuedd** |
| **0 tunnell erbyn 31 Mawrth 2021** | **4.7 o dunelli** | ● **4.6 o dunelli** | △ |

Noder: Fel ym mis Mawrth 2016. Er mwyn gweithio tuag at gyflawni'r targed, caiff yr holl wastraff ei anfon i gyfleuster adennill ynni sy'n defnyddio'r gwastraff i gynhyrchu trydan ecogyfeillgar. Gan fod rhai problemau o ran dibynadwyedd y cyfleuster newydd, parhawyd i anfon symiau bach o wastraff i safleoedd tirlenwi. Rydym wrthi'n gweithio gyda'r cyfleuster i sicrhau y gellir datrys hyn dros y flwyddyn nesaf.

## Hynt blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol

**Gwneud y gorau o'n hystâd**

### Ebrill 2015 – Mawrth 2016


Parhawyd â'n rhaglen fuddsoddi gan gynnwys gwaith ailwampio ac adnewyddu offer sy'n cyrraedd diwedd ei oes er mwyn cynnal ein hystâd yn effeithiol a sicrhau bod pethau'n gweithio'n effeithiol ac yn effeithlon. Cwblhawyd amrywiaeth o brosiectau yn ystod y flwyddyn gan gynnwys gwelliannau diogelwch a gwelliannau cynaliadwy, gan gynnwys gosod goleuadau LED (deuodau allyrru golau) a pheiriannau aerdymheru newydd, er mwyn ein helpu i ddefnyddio llai o ynni a chyrraedd ein targedau cynaliadwyedd. Yn barod at y Pumed Cynulliad, aethom ati hefyd i ailwampio swyddfeydd yr Aelodau gan osod dodrefn mwy hyblyg ac ergonomig sy'n arbed rhywfaint o le, er mwyn sicrhau bod gan yr Aelodau y cyfleusterau i weithio'n effeithiol ym Mae Caerdydd.

## Arolwg o foddhad yr Aelodau

Ar raddfa o 1-10 sut y byddech yn barnu'r cymorth cyffredinol a ddarperir ar gyfer:

| | Ebrill 2014 – Mawrth 2015 | Ebrill 2015 – Mawrth 2016 | Tuedd |
|---|---|---|---|
| **Lwfansau a staffio** | **8.70** | **9.3** | ▲ |
| **Tŷ Hywel a'r Senedd** | **7.80** | **8.4** | ▲ |
| **Lefel boddhad yr Aelodau ar gyfer TGCh yn Nhŷ Hywel a'r Senedd** | **7.50** | **8.4** | ▲ |
| **Lefel boddhad yr Aelodau ar gyfer TGCh yn y swyddfeydd etholaeth/rhanbarthol** | **6.70** | **7.2** | ▲ |

# Atodiad A - Amserlenni Deddfwriaethol




**Cyfeirnod Biliau (Cyfnod y Bil ar 31 Mawrth 2016)**

**1** Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

**2** Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**3** Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

4 Deddf Cymwysterau Cymru 2015

**5** Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016

**6** Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015

**7** Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

**8** Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

**9** Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

**10** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

**11**Y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru)

**Naratif:** Mae'r graff yn dangos yr amser a gymerodd pob Deddf i fynd drwy'r broses ddeddfwriaethol. Mae'n dangos y Biliau hynny a gafodd Gydsyniad Brenhinol (h.y. y rhai a gwblhawyd) rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016, neu filiau a gafodd Gydsyniad Brenhinol yn fuan ar ôl hynny.

Felly, nid yw'r graff yn cynnwys Biliau na chawsant Gydsyniad Brenhinol. Er enghraifft, ar 16 Mawrth 2016, gwrthododd y Cynulliad y Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yng Nghyfnod 4. Yn yr un modd, methodd y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru), y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru) a'r Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) ar ddiwedd y Pedwerydd Cynulliad, ac nid ydynt wedi cael Cydsyniad Brenhinol.

## Cover page:

On this page, you should write the information which will be used to make the cover for the paper.

| | |
|---|---|
| **Title:** | Adroddiad Comisiwn y Cynulliad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol |
| **Date:** | Ebrill 2016 – Mawrth 2017 |

# Inside cover page:

On this page, you should write any specific contact information which you want on the inside cover page.

# Cynnwys

Cyflwyniad ........ 1
Adrodd am berfformiad ........ 1
Mynediad at wybodaeth ........ 1
Cyflawniad ar sail Nodau Strategol ........ 2
Nod strategol: Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf........ 4
Nod strategol: Ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad ........ 5
Nod strategol: Defnyddio adnoddau'n ddoeth ........ 7

# Cyflwyniad

Yr enw ar gorff corfforaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw Comisiwn y Cynulliad. Mae'r Comisiwn yn gwasanaethu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gynorthwyo â'r gwaith o'i wneud yn sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar ac yn ddeddfwrfa sy'n gweithredu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

Mae'r Comisiwn yn cynnwys Elin Jones AC, y Llywydd, a phedwar Aelod Cynulliad arall o grwpiau'r pleidiau gwahanol a gynrychiolir yn y Cynulliad: Suzy Davies AC, Joyce Watson AC, Dai Lloyd AC a Caroline Jones AC. Mae'r Comisiwn yn gyfrifol am gyfeiriad strategol gwasanaethau'r Cynulliad ac mae'n atebol i'r Cynulliad. Mae'r gwaith o reoli a chyflawni o ddydd i ddydd wedi'i ddirprwyo i **Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad**, Claire Clancy.

**Strategaeth Comisiwn y Cynulliad 2016-21** sy'n pennu ein nodau ar gyfer y Pumed Cynulliad. Ein nodau strategol yw:

– darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf;

– ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad; a

– defnyddio adnoddau'n ddoeth.

## Adrodd am berfformiad

Mae'r adroddiad yn trafod perfformiad Comisiwn y Cynulliad yn erbyn ei nodau strategol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016-17. Mae'r adroddiad yn cynnwys nifer o brif ddangosyddion, a ddyrannwyd o dan y nodau strategol, sydd wedyn yn cael eu rhannu'n ddangosyddion manylach. Defnyddir system 'goleuadau traffig' i ddangos perfformiad yn erbyn y targedau o ran dangosyddion:

**Allwedd ar gyfer statws Coch/Oren/Gwyrdd:**

**Coch:** Mae materion sylweddol yn effeithio ar y gallu i gyflawni amcanion busnes. I sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni, mae angen newidiadau o ran amser, costau a/neu gwmpas.

**Oren:** Mae materion neu risgiau y mae angen mynd i'r afael â nhw. Serch hynny, mae'n bosibl y bydd modd cyflawni'n llwyddiannus heb effeithio rhyw lawer ar y gyllideb, safon gwasanaethau na dyddiadau targed.

**Gwyrdd:** Mae gwaith yn bodloni'r safonau y cytunwyd arnynt neu'n mynd rhagddo fel y cynlluniwyd. Mae pob risg sy'n hysbys yn cael ei rheoli.

Mae Comisiwn y Cynulliad hefyd yn cyhoeddi cyfrifon ac adroddiad blynyddol sy'n trafod sut mae'r Comisiwn yn perfformio yn erbyn ei nodau a'i flaenoriaethau strategol, yr hyn sydd wedi'i gyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol a sut mae Comisiwn y Cynulliad yn rheoli'r adnoddau sydd ar gael iddo a'r perfformiad ariannol wrth ddefnyddio'r adnoddau hynny.

Dylid darllen yr adroddiad hwn ar y cyd â'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiad o Gyfrifon i gael darlun llawn o berfformiad y Comisiwn a'r hyn y mae wedi'i gyflawni.

## Mynediad at wybodaeth

Mae'r Comisiwn yn fodlon darparu rhagor o wybodaeth os hoffech ddysgu rhagor am ein gwaith:

– Gallwch gysylltu â ni yma: **www.cynulliad.cymru/cysylltu**

– Mae canllawiau ar **fynediad at wybodaeth** ar gael ar wefan y Cynulliad.

# Cyflawniad ar sail Nodau Strategol

Crynodeb o'r wybodaeth fanylach sy'n dilyn am y dangosyddion perfformiad allweddol (KPI):

| Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf | Ebrill 2015 – Mawrth 2016 | Ebrill 2016 – Mawrth 2017 |
|---|---|---|
| **KPI 1: Mae'r holl fusnes seneddol wedi digwydd fel y cynlluniwyd** Mae'r perfformiad da o ran amserlenni yn parhau, gyda rhywfaint o gynnydd o'i gymharu â'r un cyfnod yn ystod y flwyddyn flaenorol. | Gwyrdd | Gwyrdd |
| **KPI 2: Darparu datblygiad proffesiynol effeithiol** Mae'r cyfleoedd ychwanegol sydd ar gael i ddysgu Cymraeg yn cael eu hadlewyrchu yn y cynnydd mewn dysgwyr Cymraeg. Mae nifer yr Aelodau Cynulliad a staff cymorth Aelodau'r Cynulliad sy'n cymryd rhan mewn DPP wedi cynyddu, ac mae hyn wedi digwydd yn unol â disgwyliadau yn dilyn etholiad y Cynulliad. | Gwyrdd | Gwyrdd |

| Ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad | Ebrill 2015 – Mawrth 2016 | Ebrill 2016 – Mawrth 2017 |
|---|---|---|
| **KPI 3: Helpu i feithrin dealltwriaeth o rôl a gwaith y Cynulliad** Er bod nifer yr ymwelwyr wedi gostwng, mae'r nifer sy'n ymgysylltu drwy deithiau wedi cynyddu. Mae lefelau boddhad yr ymwelwyr yn parhau i fod yn llawer uwch na'r targed. | Gwyrdd | Gwyrdd |
| **KPI 4: Hyrwyddo gwaith y Cynulliad** Drwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, mae ein presenoldeb ar-lein wedi datblygu'n sylweddol. Mae gwaith y pwyllgorau yn parhau i gael cryn sylw yn y cyfryngau. | Gwyrdd | Gwyrdd |

| Defnyddio adnoddau'n ddoeth | Ebrill 2015 – Mawrth 2016 | Ebrill 2016 – Mawrth 2017 |
|---|---|---|
| **KPI 5: Gwariant yn erbyn y targed** Mae'r gwariant hyd yma yn cyd-fynd â'r proffil gwariant. Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyllidebau prosiectau yn cael eu monitro'n ofalus. | Gwyrdd | Oren |
| **KPI 6: Mae gofynion a disgwyliadau o ran staff yn cael eu diwallu** Mae cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch yn cyd-fynd â chyfartaledd y sector. Gwnaethpwyd cynnydd da yn y gwaith o wella'n dulliau o reoli perfformiad a datblygu staff. | Oren | Gwyrdd |
| **KPI 7: Mae gwasanaethau TGCh yn cael eu darparu fel y cynlluniwyd** Effeithiwyd ar dargedau o ran ymateb i ddigwyddiadau o ganlyniad i nifer uwch na'r cyfartaledd o alwadau. | Oren | Oren |
| **KPI 8: Mae ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn cael eu prosesu yn ôl y gofyn** Mae gwelliannau wedi'u gwneud yn y nifer cyfartalog o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth sy'n cael eu hateb o fewn y terfyn amser statudol. | Gwyrdd | Gwyrdd |

| | | |
|---|---|---|
| **KPI 9: Mae targedau amgylcheddol yn cael eu cyflawni fel y cynlluniwyd**<br>Er bod y gostyngiad yn yr ynni a ddefnyddiwyd yn llai na'r llynedd, mae'r Cynulliad yn parhau i gyrraedd ei darged blynyddol yn ôl y bwriad. | Gwyrdd | Gwyrdd |

# Nod strategol: Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf

| | Targed | Ebrill 2015 – Mawrth 2016 | Ebrill 2016 – Mawrth 2017 | |
|---|---|---|---|---|
| **KPI 1: Mae'r holl fusnes seneddol wedi digwydd fel y cynlluniwyd** | | Gwyrdd | Gwyrdd | |
| Canran y papurau pwyllgor a gyhoeddwyd o fewn terfynau amser y cytunwyd arnynt â phob pwyllgor | 100% | 93.3% | 94% | ● |
| Canran Cofnod Trafodion y Cyfarfod Llawn a gyhoeddwyd o fewn y terfyn amser | 100% | 99% | 99% | ● |
| Canran Cofnod Trafodion y pwyllgorau a gyhoeddwyd o fewn 5 diwrnod gwaith | 100% | 99% | 98% | ● |
| Nifer o drafodion y Cynulliad (cyfarfodydd pwyllgor/Cyfarfod Llawn) yr effeithiwyd arnynt oherwydd diffygion yng ngwasanaethau'r Comisiwn | 0% | 0.6% (2 allan o 345) | 0% | ● |
| Canran yr ymholiadau i'r gwasanaeth ymchwil a atebwyd o fewn terfyn amser y cytunwyd arno | 100% | 98.5% | 95% | ● |

Noder: Dangosir y data fel cyfartaledd ar gyfer Ebrill 2016 – Mawrth 2017.

| | Targed | Ebrill 2015 – Mawrth 2016 | Ebrill 2016 – Mawrth 2017 | |
|---|---|---|---|---|
| **KPI 2: Darparu Datblygiad Proffesiynol effeithiol** | | Gwyrdd | Gwyrdd | |
| Aelodau newydd y Cynulliad (ACau) i gwblhau'r rhaglen gynefino | 80% | - | 90% | ● |
| Nifer Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad sydd wedi dilyn rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) | 40 | 35 | 50 | ● |
| Nifer yr Aelodau'r Cynulliad a'u Staff Cymorth sy'n nodi bod eu profiad o'r rhaglenni DPP a gynhaliwyd yn dda/da iawn ar y cyfan | 80% yn dda neu'n dda iawn | - | 87% | ● |
| Nifer y dysgwyr Cymraeg sy'n cael hyfforddiant | - | 46 | 50 | - |
| Nifer y dysgwyr Cymraeg sy'n symud ymlaen i lefel uwch | - | 15 | 12 | - |

Noder: Dangosir y data fel ar ddiwedd mis Mawrth 2017.

## Nod strategol: Ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad

| | Targed | Ebrill 2015 – Mawrth 2016 | Ebrill 2016 – Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|
| **KPI 3: Meithrin dealltwriaeth o rôl a gwaith y Cynulliad Cenedlaethol** | | Gwyrdd | Gwyrdd |
| Nifer yr ymwelwyr â'r Senedd/Pierhead [1] | Cynnal pob cyfnod | 163,158 | 160,000 |
| Nifer yr ymwelwyr ar deithiau [1] | Cynnal pob cyfnod | 17,663 | 17,800 |
| Nifer y cwsmeriaid sy'n nodi bod eu profiad o fynd ar daith o amgylch yr ystâd yn dda/da iawn ar y cyfan [2] | 80% yn dda neu'n dda iawn | 87.5% | 90% |
| Nifer y digwyddiadau a drefnwyd ar yr ystâd [1] | Cynnydd ar y cyfnod blaenorol | 292 | 300 |
| Nifer y cwsmeriaid sy'n nodi bod eu profiad o drefnu digwyddiad ar yr ystâd yn dda/da iawn ar y cyfan [2] | 80% yn dda neu'n dda iawn | 87.5% | 69% |
| Nifer y sesiynau codi ymwybyddiaeth gyffredinol wyneb yn wyneb a gynhaliwyd gyda phobl ifanc [1] | Cynnal pob cyfnod | - | 346 |

Noder: [1] Dangosir y data fel cyfanswm ar gyfer Ebrill 2016 – Mawrth 2017. [2] Dangosir y data fel cyfartaledd ar gyfer Ebrill 2016 – Mawrth 2017.

| | Targed | Ebrill 2015 – Mawrth 2016 | Ebrill 2016 – Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|
| **KPI 4: Hyrwyddo gwaith y Cynulliad** | | **Gwyrdd** | **Gwyrdd** |
| Adroddiadau pwyllgor a hyrwyddwyd gan ddarlledwyr neu'r wasg [3] | 100 y cant | 100% | 100% |
| Traffig ar y we: [3] | | | |
| - Ymwelwyr | Cynnal pob cyfnod | 42,374 | 48,459 |
| - Ymweliadau | | 80,782 | 86,629 |
| - Achosion o agor tudalen benodol | | 274,905 | 308,894 |
| Facebook – Cyrhaeddiad ar gyfartaledd [4] | Cynnal pob cyfnod | - | 3,024 |
| Facebook – 'Hoffi' [3] | Cynnal pob cyfnod | 4,749 | 4,903 |
| Argraffiadau Twitter (nifer y bobl a welodd y cynnwys) [5] | Cynnal pob cyfnod | - | 489,634 |
| Twitter: [5] | | | |
| - Dilynwyr (y prif gyfrif corfforaethol) | Cynnal pob cyfnod | 36,193 | 39,895 |
| - Dilynwyr (cyfrifon eraill) | | 23,024 | 25,459 |
| YouTube [3] | | | |
| - Faint o bobl a oedd wedi edrych arno | Cynnal pob cyfnod | 59,509 | 64,008 |
| - Munudau a wyliwyd | | 64,597 | 68,543 |
| Defnydd o Senedd.tv: [5] | | | |
| - Faint o bobl a oedd wedi edrych arno | Cynnal pob cyfnod | 280,284 | 309,541 |
| - Defnyddwyr | | 44,839 | 50,489 |
| Y nifer sy'n agor blog y Gwasanaeth Ymchwil [3] | Cynnal pob cyfnod | 90,004 | 88,759 |

Noder: [3] Dangosir y data fel cyfanswm ar gyfer Ebrill 2016 – Mawrth 2017. [4] Dangosir y data fel cyfartaledd ar gyfer Ebrill 2016 – Mawrth 2017. [5] Dangosir y data fel cyfanswm ar ddiwedd mis Mawrth 2017.

# Nod strategol: Defnyddio adnoddau'n ddoeth

| | Targed | Ebrill 2015 – Mawrth 2016 | Ebrill 2016 – Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|
| **KPI 5: Gwariant yn erbyn y targed** | | Gwyrdd | Oren |
| Canran y tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn [6] | <1% | 0.13% | 0.6% |
| Gwariant gwirioneddol yn erbyn gwariant proffil [6] | O fewn 2% i'r proffil | 1.54% | 2.1% |
| Cyrraedd y nod o sicrhau gwerth am arian [6] | £500,000 | £866,000 | £600,000 |
| Nifer y diwrnodau a gymerir i dalu cyflenwyr ar gyfartaledd [7] | <10 diwrnod | 5.94 | 10.7 |
| Nifer y diwrnodau a gymerir i dalu Aelodau'r Cynulliad ar gyfartaledd [7] | <5 diwrnod | 1.7 | 4.1 |

Noder: [6] Dangosir y data fel ar ddiwedd mis Mawrth 2017. [7] Dangosir y data fel cyfartaledd ar gyfer Ebrill 2015 – Mawrth 2016. I gael rhagor o wybodaeth am Strategaeth Cyllidebol Comisiwn y Cynulliad edrychwch ar yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiad o Gyfrifon.

| | Targed | Ebrill 2015 – Mawrth 2016 | Ebrill 2016 – Mawrth 2017 | |
|---|---|---|---|---|
| **KPI 6: Gofynion a disgwyliadau o ran staff yn cael eu diwallu** | | Oren | Gwyrdd | |
| Absenoldeb salwch – cyfartaledd canran treigl dros 12 mis [8] | <3% | 3.68% | 3.3% | |
| Absenoldeb salwch – canran y cyfartaledd misol | <3% | 2.1% | 1.9% | |
| Cwblhau adolygiadau perfformiad staff (ddwywaith y flwyddyn – Ebrill a Hydref) | 100% | 86% | 87% | |
| Cyfradd ymateb cyflogeion i'r arolwg staff blynyddol | 62% yw canolrif y Gwasanaeth Sifil ar hyn o bryd. | 82% | 83% | |
| Lefel ymgysylltiad cyflogeion yn erbyn y 5 cwestiwn craidd yn yr arolwg staff blynyddol | 59% yw canolrif y Gwasanaeth Sifil ar hyn o bryd. | 72% | 70% | |
| Nifer y staff: [8] | | | | |
| - Nifer y staff | - | 450 | 437 | - |
| - Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn | - | 430.26 | 418.20 | - |

Noder: [8] Dangosir y data fel ar ddiwedd mis Mawrth 2017.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 4

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Health and Social Services Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsey, AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1NA

Ein Cyf AG/JW/SB

10 Hydref 2016

Annwyl Mr Ramsey

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus – Arlwyo mewn Ysbytai a Maeth Cleifion – dydd Llun 17 Hydref 2016 - 15.00-16.00**

Amgaeaf bapur tystiolaeth i gynorthwyo ag adolygiad byr y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ddydd Llun 17 Hydref ar gostau, cynllunio a darparu gwasanaethau arlwyo GIG Cymru; safoni dogfennaeth nyrsio i hybu sgrinio maethol cyson; a rheoli gwastraff bwyd, Rwy'n cadarnhau y bydd yr Athro Jean White, y Prif Swyddog Nyrsio, a minnau yn mynychu'r cyfarfod i ateb cwestiynau'r aelodau.

Mae'r papur amgaeedig yn darparu tystiolaeth ar y materion a ganlyn:

- Rhoi arfer da cydnabyddedig ar waith mewn perthynas â sgrinio maethol a chynllunio gofal ar draws pob bwrdd iechyd yng Nghymru;
- Y cymorth sydd ar gael ar wardiau i wella'r help a roddir i gleifion yn ystod amser bwyd;
- Lleihau gwastraff bwyd, yn cynnwys canfyddiadau astudiaeth beilot o wastraff bwyd yn Ysbyty Llandochau. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr adroddiad ym mis Ebrill 2014;
- Y sefyllfa ddiweddaraf o ran y cydweithio rhwng byrddau iechyd ac awdurdodau lleol i gasglu a gwaredu gwastraff bwyd naill ai drwy weithfeydd treulio anaerobig neu gompostio caeedig;
- Esboniad ynghylch y defnydd isel o systemau electronig i gynllunio a monitro gwasanaethau arlwyo;
- Amcanion yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir ar gyfer y nyrs wybodeg newydd.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 02920 801182/1144
Andrew.Goodall@wales.gsi.gov.uk
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

Yn gywir

**Dr Andrew Goodall**

Papur Briffio ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Adolygiad o Faeth ac Arlwyo

Dydd Llun 17 Hydref 2016

Tabl Cynnwys


| **Adran** | **Rhif tudalen** |
|---|---|
| Cyflwyniad | 2 |
| Rhoi arfer da cydnabyddedig ar waith mewn perthynas â sgrinio maethol a chynllunio gofal ar draws pob bwrdd iechyd yng Nghymru | 3 |
| Y cymorth sydd ar gael ar wardiau i wella'r help a roddir i gleifion yn ystod amser bwyd | 5 |
| Lleihau gwastraff bwyd yn cynnwys canfyddiadau astudiaeth beilot o wastraff bwyd yn Ysbyty Llandochau. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr adroddiad ym mis Ebrill 2014 | 6 |
| Y sefyllfa ddiweddaraf o ran y cydweithio rhwng byrddau iechyd ac awdurdodau lleol i gasglu a gwaredu gwastraff bwyd naill ai drwy weithfeydd treulio anaerobig neu gompostio caeedig | 7 |
| Esboniad ynghylch y defnydd isel o systemau electronig i gynllunio a monitro gwasanaethau arlwyo | 9 |
| Amcanion yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir ar gyfer y nyrs wybodeg newydd. | 10 |

**Cyflwyniad**

Mae Dr Andrew Goodall a'r Athro Jean White yn ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 17 Hydref 2016. Mae'r Pwyllgor yn canolbwyntio ar ymchwiliad byr sy'n ystyried yr amrywiaeth eang yng nghostau'r gwaith cynllunio a'r ddarpariaeth o wasanaethau arlwyo ledled sefydliadau'r GIG yng Nghymru a'r gwaith o safoni dogfennaeth nyrsio i hyrwyddo sgrinio maethol cyson ynghyd â gwastraff bwyd.

Deellir y bydd sesiwn y Pwyllgor yn cwmpasu'r materion canlynol:

- Rhoi arfer da cydnabyddedig ar waith mewn perthynas â sgrinio maethol a chynllunio gofal ar draws pob bwrdd iechyd yng Nghymru;

- Y cymorth sydd ar gael ar wardiau i wella'r help a roddir i gleifion yn ystod amser bwyd;

- Lleihau gwastraff bwyd yn cynnwys canfyddiadau astudiaeth beilot o wastraff bwyd yn Ysbyty Llandochau. Derbyniodd Llywodraeth Cymru'r adroddiad ym mis Ebrill 2014;

- Y sefyllfa ddiweddaraf o ran cydweithio rhwng byrddau iechyd ac awdurdodau lleol i gasglu a gwaredu gwastraff bwyd naill ai drwy weithfeydd treulio anaerobig neu gompostio caeedig;

- Esboniad ynghylch y defnydd isel o systemau electronig i gynllunio a monitro gwasanaethau arlwyo

- Amcanion yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir ar gyfer y nyrs wybodeg newydd.

**Adran 1**

**Rhoi arfer da cydnabyddedig ar waith mewn perthynas â sgrinio maethol a chynllunio gofal ar draws pob bwrdd iechyd yng Nghymru**

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal diwygiedig (2015) yn cynnwys safon benodol sy'n ymwneud â maeth. Mae Safon 2.5 yn datgan:

> "Mae anghenion maethol pobl a'u gallu corfforol i fwyta ac yfed yn cael eu hasesu, eu cofnodi a'u diwallu. Cânt eu hadolygu bob hyn a hyn fel y bo'n briodol a'u hatgyfeirio at wasanaethau dietegol fel y bo angen i gael cyngor a chymorth arbenigol."

Y fframwaith cyffredinol sy'n arwain arferion maeth mewn ysbytai yw'r Llwybr Gofal Maeth mewn Ysbytai a gyflwynwyd yn 2009.

Mae'r llwybr yn ei gwneud yn ofynnol bod pob claf, o fewn 24 awr i gael ei dderbyn i'r ysbyty, yn cael ei bwyso a'i sgrinio ar gyfer diffyg maeth neu risg o ddiffyg maethiad gan ddefnyddio offeryn sgrinio maethol wedi'i ddilysu. Dylai cleifion y nodwyd bod ganddynt anawsterau llyncu gael eu hatgyfeirio ar gyfer asesiad ffurfiol gan Therapydd Lleferydd ac Iaith. Dylid trefnu atgyfeiriad i Ddeietegydd os bydd angen cyngor ar ddeiet wedi'i addasu o ran gwead neu os bydd angen cymorth maethol artiffisial. Mewn perthynas â chleifion lle y bydd maeth drwy'r ymysgaroedd yn wrtharwydd, dylid ystyried darparu maeth yn gyfan gwbl drwy'r gwythiennau.

Pan fydd sgôr risg maeth a phwysau wedi'i chyfrifo dylid rhoi cynllun gofal maeth amlbroffesiwn ar waith. Bydd y cynllun gofal a ddatblygir yn dibynnu ar y sgôr risg maeth. Caiff y sgorau eu categoreiddio yn rhai isel, canolig neu uchel.

Bydd byrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn parhau i ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau i fonitro cydymffurfiaeth â'r Llwybr Gofal Maeth mewn Ysbytai. Bydd hyn yn cynnwys archwiliadau mewnol a hapwiriadau ansawdd ynghyd ag archwiliadau allanol megis arolygon y Cyngor Iechyd Cymuned. Mae'r pecyn cymorth Hapwiriadau Ansawdd a ddatblygwyd yn dilyn yr adolygiad Ymddiried mewn Gofal (Andrews (2014)) yn cynnwys adran i annog hapwiriadau o lefelau hydradu cleifion. Lansiwyd y pecyn cymorth hwn yn ddiweddar i alluogi hapwiriadau i gael eu cynnal mewn ysbytai.

Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd i greu cysylltiadau agosach rhwng grŵp Fframwaith Bwydlenni Ysbytai Cymru Gyfan a grŵp y Cydgysylltwyr Maeth i sicrhau cysylltiadau agosach rhwng nyrsio ac arlwyo. Bydd hyn yn galluogi i'r broses o weithredu polisi arlwyo a maeth gael ei gourchwylio'n fwy effeithiol. Mae hwn yn ddull pwysig i sicrhau bod y broses o oruchwylio elfennau priodol o bolisi ar arlwyo a maeth yn broses gydgysylltiedig.

Bydd Prif Nyrs y Ward yn parhau i fod yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â'r llwybr yn ardal y ward a bydd uwch-nyrsys yn monitro cydymffurfiaeth.

Bydd Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn arwain y gwaith o foderneiddio dull cadw cofnodion nyrsys ac yn sicrhau bod systemau yn addas at y diben ar ran sefydliadau'r GIG. Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn edrych ar sut y gellir

rhesymoli dogfennau nyrsio a newid o system bapur i system electronig, er nad oes amserlenni pendant ar gyfer cwblhau’r gwaith ar hyn o bryd. Bydd Bwrdd Rheoli Gwybodeg GIG Cymru yn goruchwylio’r prosiect, a chaiff ei gadeirio ar hyn o bryd gan Andrew Goodall, Prif Swyddog Gweithredol/Cyfarwyddwr Cyffredinol GIG Cymru. Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wedi recriwtio nyrs wybodeg newydd y disgwylir iddi ddechrau ei swydd ar 31 Hydref 2016. Bydd yr unigolyn hwn yn cefnogi’r gwaith o ddatblygu’r system dogfennau electronig Cymru Gyfan.

## Adran 2

**Y cymorth sydd ar gael ar wardiau i wella'r help a roddir i gleifion yn ystod amser bwyd**

Cafodd amseroedd bwyd wedi'u neilltuo eu cefnogi a'u cyflwyno gan brif nyrsys wardiau i alluogi cleifion i fwyta eu prydau heb ymyrraeth ac i sicrhau eu bod yn cael cymorth priodol ar gyfer eu hanghenion yn ystod amser bwyd. Yn y bôn mae hyn wedi golygu ail-amserlennu rowndiau ward meddygon, ymyriadau clinigol ac oriau ymweld er mwyn sicrhau hyn. Fodd bynnag, cydnabyddir bod yn well gan rai cleifion y mae angen cymorth arnynt i fwyta gael help gan eu perthnasau a/neu ffrindiau. Mae hyn yn gofyn am hyblygrwydd o ran amseroedd ymweld cyfyngedig ac mae'r penderfyniadau hyn yn parhau i fod yn benderfyniadau lleol a wneir yn ôl disgresiwn gweithwyr iechyd proffesiynol wedi'u harwain gan fuddiannau'r cleifion. Anogir teuluoedd a ffrindiau i fynychu er mwyn helpu yn ystod amser bwyd lle bydd y claf yn gofyn am hyn a lle y bydd o fudd i'r claf.

Yn 2012 ysgrifennodd y Prif Swyddog Nyrsio a'r Prif Swyddog Meddygol at fyrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn ategu'r neges bod amseroedd bwyd wedi'u neilltuo yn rhan bwysig o greu amgylchedd ward sy'n annog cleifion i fwyta a mwynhau eu prydau. Pwysleisiodd yr ohebiaeth ei bod yn bwysig annog teuluoedd a gofalwyr i helpu yn ystod amser bwyd. Cyfeiriodd y Prif Swyddog Nyrsio a'r Prif Swyddog Meddygol hefyd at bwysigrwydd defnyddio taflen gyfarwyddyd Swyddfa Archwilio Cymru *'Bwyta'n Dda yn yr Ysbyty – Yr Hyn y Dylech ei Ddisgwyl'* a gofynnwyd i sefydliadau naill ai ymgorffori'r wybodaeth hon yn y deunyddiau presennol ar dderbyn cleifion i'r ysbyty neu roi nodyn cyfarwyddyd Swyddfa Archwilio Cymru '*Bwyta'n Dda yn yr Ysbyty – Yr Hyn y Dylech ei Ddisgwyl'* i bob claf pan gaiff ei dderbyn i'r ysbyty. Yn dilyn yr ohebiaeth, mae byrddau iechyd wedi bod yn archwilio ac yn parhau i archwilio'r broses o weithredu amseroedd bwyd wedi'u neilltuo.

Bydd y cysylltiadau agosach rhwng grŵp Fframwaith Bwydlenni Ysbytai Cymru Gyfan a'r grŵp Cydgysylltwyr Maeth yn golygu y bydd modd creu cysylltiadau agosach rhwng nyrsio ac arlwyo a'r broses o oruchwylio gweithrediad y Llwybr Gofal Maeth mewn Ysbytai ac yn benodol y polisi amseroedd bwyd wedi'u neilltuo. Dros y flwyddyn i ddod bydd gwaith y grwpiau hyn yn canolbwyntio ar y cymorth sydd ar gael ar wardiau i wella'r help i gleifion amser bwyd.

Caiff amseroedd bwyd eu cydgysylltu gan nyrs gofrestredig a'r nod yw cynnwys yr holl staff nyrsio ar y ward amser bwyd. Cyflwynwyd arlwywyr ar y ward ar rai wardiau lle y caiff y bwyd ei roi ar blatiau a'i weini i gleifion gan yr arlwywyr ond y staff nyrsio fydd yn helpu'r cleifion i fwyta.

## Adran 3

**Lleihau gwastraff bwyd yn cynnwys canfyddiadau astudiaeth beilot o wastraff bwyd yn Ysbyty Llandochau. Derbyniodd Llywodraeth Cymru'r adroddiad ym mis Ebrill 2014**

### Cefndir

Caiff data blynyddol y System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau ei gasglu gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Ystadau Arbenigol o sefydliadau'r GIG. Mae hyn yn cynnwys data ar wastraff bwyd a ddefnyddir i feincnodi ac asesu gwastraff bwyd ar draws sefydliadau'r GIG.

Yn wreiddiol gosodwyd targed i sefydliadau'r GIG sicrhau nad oedd gwastraff o brydau heb eu cyffwrdd yn mynd yn uwch na 10%; roedd gwastraff yr adeg honno yn 16%. Cafodd prif brydau eu monitro a dim ond dognau protein nas defnyddiwyd a gafodd eu mesur. Ni fesurwyd gwastraff ar blatiau.

Cynhaliwyd yr astudiaeth beilot gwastraff bwyd yn Ysbyty Athrofaol Llandochau, Caerdydd ym mis Mawrth 2014. Peilot undydd ydoedd. Y bwriad oedd casglu data, trafod newidiadau posibl gyda chynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd, sy'n ymdrin â threfniadau arlwyo ysbytai a maeth cleifion yn ddyddiol, a gwneud awgrymiadau ar gyfer argymhellion i'r system.

Gwnaed nifer o argymhellion ar ôl yr astudiaeth beilot a chafodd y rhain eu rhannu â'r holl fyrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Er enghraifft, mae dulliau cynhyrchu bwyd modern yn golygu bod lefelau ansylweddol o wastraff yn cael eu cynhyrchu o fewn Unedau Cynhyrchu Canolog a cheginau ysbytai. Dylid canolbwyntio'n bennaf ar leihau gwastraff ar wardiau ysbyty a throlïau bwyd.

Yn dilyn yr astudiaeth beilot mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru - Gwasanaethau Ystadau Arbenigol wedi diwygio'r diffiniadau ar gyfer casglu data y System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau mewn trafodaethau â chynrychiolwyr y GIG. Roedd y newidiadau'n cynnwys ystyried prydau ar blatiau ac argymell y dylid ystyried defnyddio archwilwyr allanol.

Argymhellir bod ysbytai yn monitro eu gwastraff bwyd drwy'r gadwyn arlwyo (caffael, cynhyrchu, archebion ward, gweini, gwastraff platiau a phrydau heb eu cyffwrdd).

Tua 6% yw canran y gwastraff bwyd mewn ysbytai acíwt erbyn hyn.

**Adran 4**

**Y sefyllfa ddiweddaraf o ran y cydweithio rhwng byrddau iechyd ac awdurdodau lleol i gasglu a gwaredu gwastraff bwyd naill ai drwy weithfeydd treulio anaerobig neu gompostio caeedig**

**Cefndir**

Caiff y broses o weithredu'r cynigion gwastraff a amlinellir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ei gwneud drwy gyfrwng offeryn statudol (O.S.) a fydd yn destun ymgynghoriad a phroses graffu lawn gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Bwriedir cynnal yr ymgynghoriad tua chanol 2017 yn amodol ar gymeradwyaeth Ysgrifennydd y Cabinet.

Mae'r cynigion gwastraff a amlinellir yn y Ddeddf yn cynnig gwahardd rhyddhau pob gwastraff bwyd i garthffos fudr gan gynnwys gwahardd y defnydd o beiriannau mwydo bwyd.

Mae cydweithwyr yn y maes gwastraff wedi cynghori eu bod yn ystyried yr achos dros eithrio bwyd a gaiff ei drin gan rai technolegau trin bwyd rhag gwaharddiad o'r fath. Byddai'r rhain o bosibl yn cynnwys treulwyr gwastraff bwyd sy'n cynhyrchu 'dŵr llwyd' a thechnolegau newydd eraill megis peiriant rhwygo/dad-ddyfrhau a allai leihau pwysau a meintiau'n sylweddol gan greu cynnyrch glanach i'w gasglu.

Y nod o hyd yw sicrhau'r defnydd mwyaf posibl o wastraff bwyd ar gyfer gwrtaith o ansawdd uchel ac ynni, a'r dull a ffefrir ar gyfer hyn yw casgliad ar wahân a threulio'r gwastraff yn anaerobig.

Y brif her o ran casglu gwastraff bwyd ar wahân a gwahanu gwastraff yn fwy cyffredinol er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf yw prinder lle ar safleoedd ysbytai. Mae her logistaidd hefyd o ran sut y caiff bwyd ei ddosbarthu, ei baratoi a'i ddychwelyd ac ati mewn ysbytai.

Ceir darlun cymysg hefyd o ran y gwasanaethau casglu gwastraff a ddarperir gan awdurdodau lleol ledled Cymru. Mae hyn yn amlwg iawn mewn perthynas â rhai o'r byrddau iechyd mwy o faint sydd â 5 neu 6 o awdurdodau lleol yn eu hardal sy'n aml yn gweithredu mewn ffyrdd gwahanol.

Mae'r heriau hyn wedi peri i rai byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG ystyried technolegau amgen.

**Trefniadau gwaredu gwastraff Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaeth GIG Felindre ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru**

| **Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth y GIG** | **Dull(iau) gwaredu gwastraff bwyd ar gyfer prif geginau, ffreuturau** |
|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol | Wedi canolbwyntio ar leihau swm y gwastraff bwyd nes ceir eglurder ynghylch y rheoliadau. |

| | |
|---|---|
| Abertawe Bro Morgannwg | Peiriannau mwydo bwyd yw'r prif ddull a ddefnyddir i waredu gwastraff o hyd |
| Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan | Yn Ysbyty Ystrad Fawr ceir cytundeb gydag Olleco bod yr holl wastraff yn cael ei gasglu ar wahân a'i dreulio'n anaerobig. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu ehangu'r gwasanaeth adfer ond mae'n aros am eglurder ynghylch y rheoliadau. Fel arall, peiriannau mwydo bwyd yw'r prif ddull gwaredu gwastraff ar draws y Bwrdd Iechyd. |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Yn Wrecsam Maelor, caiff gwastraff bwyd ei gasglu gan Re-food a'i dreulio'n anaerobig. Yn Ysbyty Glan Clwyd caiff gwastraff bwyd ei gasglu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Sir Ddinbych a'i dreulio'n anaerobig. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Gwynedd yn casglu gwastraffo bob ysbyty cymuned yn ei ardal ac yn cynllunio treial yn Ysbyty Gwynedd. Fel arall, peiriannau mwydo bwyd yw'r prif ddull gwaredu ar draws y Bwrdd Iechyd. |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Caiff gwastraff bwyd o bob safle ysbyty ei gasglu gan Gyngor Sir Caerdydd a'i waredu drwy ei dreulio'n anaerobig. |
| Cwm Taf | Mae pob safle'n defnyddio peiriannau mwydo bwyd heblaw am Ysbyty Brenhinol Morgannwg lle mae'r gwastraff yn cael ei roi mewn bagiau du. Bwriedir defnyddio Olleco ar gyfer casgliadau yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac ehangu hyn i safleoedd eraill. Nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cynnig gwasanaeth. Cafwyd cytundeb gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i fynd â gwastraff bwyd o Ysbyty'r Tywysog Siarl i'r Gwaith Treulio Anaerobig Biogen newydd ym Mryn Pica. |
| Hywel Dda | Caiff y gwastraff bwyd o bob safle ysbyty ei waredu drwy dreulio anaerobig naill ai gan yr awdurdod lleol neu gwmni preifat. |
| Powys | Caiff gwastraff bwyd ei gasglu gan Gyngor Sir Powys a'i dreulio'n anaerobig. Mae'r broses hon wrthi'n cael ei chyflwyno ac mae 80% o safleoedd eisoes wedi'u cwmpasu. |
| Felindre | Yng Nghanolfan Ganser Felindre caiff bwyd ei waredu drwy gyfrwng uned bio-dreulio yn y gegin |

| | |
|---|---|
| | sy’n cynhyrchu dŵr llwyd ar ddiwedd y broses. |
| Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | Yr unig gasgliad gwastraff bwyd yw un o Ganolfan Adnoddau newydd y Gwasanaethau Ambiwlans a Thân yn Wrecsam gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a defnyddir proses treulio anaerobig. |

**Adran 5**

**Esboniad ynghylch y defnydd isel o systemau electronig i gynllunio a monitro gwasanaethau arlwyo**

**Cefndir**

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru edrych ar ddatblygu Datrysiad Arlwyo TG i Gymru gyfan.

Lluniwyd yr Achos Busnes Amlinellol i fynd i'r afael ag anghenion byrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre fel yr amlinellir yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn hytrach na Llywodraeth Cymru. Mae angen i bob un o sefydliadau'r GIG gytuno i fabwysiadu system TG Cymru gyfan.

Mae'r Achos Busnes Amlinellol yn cael ei drafod yng nghyfarfod Bwrdd Rheoli Gwybodeg GIG Cymru ym mis Tachwedd. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon yn awyddus i fabwysiadu dull ar gyfer Cymru gyfan mewn perthynas â systemau TG ledled GIG Cymru lle y bo'n briodol.

Gofynnir i Fwrdd Rheoli Gwybodeg GIG Cymru gymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol. Os caiff ei gymeradwyo, caiff cynllun prosiect ei ddatblygu i ymdrin â'r broses o gaffael y system. Byddai hyn yn cael ei ariannu gan Raglen Cyfalaf Cymru Gyfan y GIG.

Mae nifer o fyrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn aros am system ar gyfer Cymru gyfan yn hytrach na rhoi unrhyw drefniadau ar waith fel mesur dros dro.

**Adran 6**

**Amcanion yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir ar gyfer y nyrs wybodeg newydd.**

Mae'r nyrs wybodeg newydd a benodwyd gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn dechrau ar ei swydd ar 31 Hydref 2016. Mae cynllun prosiect drafft yn bodoli ar gyfer datblygu system dogfennaeth nyrsys Cymru gyfan. Caiff y cynllun ei drafod gyda'r nyrs wybodeg yn ystod ei chyfnod sefydlu ond rhagwelir y bydd angen dwy flynedd i gwblhau ffrydiau gwaith y prosiect.

Bydd y gweithgareddau sydd eu hangen i gwblhau'r prosiect yn rhannu'n 5 ffrwd waith.

**Ffrwd waith 1 – Dogfennau nyrsio craidd (Cymru gyfan) i'w cwblhau ym mlwyddyn 1**

Bydd hyn yn cynnwys adolygu'r dogfennau nyrsio sy'n cylchredeg ar hyn o bryd mewn byrddau iechyd, dadansoddi'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu a rhesymoli'r dogfennau er mwyn lleihau dyblygu. Bydd yr adolygiad yn nodi cyfres o ddogfennau nyrsio craidd i'w defnyddio ar gyfer Cymru gyfan, gan gynnwys dogfennau derbyn, asesu ac asesu risg, cynllunio gofal a rhyddhau, ac sy'n bodloni dulliau rhannu gwybodaeth ynghyd â rhwymedigaethau proffesiynol a gofynion o ran sicrhau ansawdd.

**Ffrwd waith 2 – Proses lywodraethu i'w chwblhau ym mlwyddyn 1**

Sefydlu proses lywodraethu genedlaethol i gymeradwyo, catalogio a rheoli fersiynau o ddogfennau nyrsio cenedlaethol. Bydd y broses yn galluogi mabwysiadu proses lywodraethu genedlaethol yn lleol er mwyn cymeradwyo, catalogio a rheoli fersiynau o ddogfennau nyrsio lleol.

**Ffrwd waith 3 – Peilot o ddogfennau electronig (dylid cytuno ar y cerrig milltir gyda'r nyrs wybodeg)**

Bydd hyn yn ategu'r broses o gynllunio, datblygu, profi a sicrhau ansawdd (yn unol â Phroses Sicrwydd Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru) dull electronig i gasglu gwybodaeth nyrsio yn y man lle y darperir gofal, sy'n bodloni'r gofynion nyrsio lefel uchel i gasglu, gweld, golygu a rhannu gwybodaeth gyda darparwyr gofal y claf.

**Ffrwd waith 4 – Casglu arsylwadau clinigol yn electronig (dylid cytuno ar y cerrig milltir gyda'r nyrs wybodeg)**

Bydd gwaith yn cael ei wneud gyda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i ddatblygu neu adolygu datrysiad(au) electronig "oddi ar y silff" i gasglu arsylwadau clinigol sy'n gysylltiedig ag asesiad Sgôr Rhybudd Cynnar Cenedlaethol .

**Ffrwd waith 5 – Gwella ansawdd dogfennau nyrsio (dylid cytuno ar y cerrig milltir gyda'r nyrs wybodeg)**

Bydd hyn yn gwneud argymhellion ar gyfer fframwaith cenedlaethol ar gyfer dogfennau nyrsio yng Nghymru. Bydd yn cynnwys defnyddio cynlluniau gofal a

chynlluniau gofal craidd ac yn darparu canllawiau ar y broses gywir o gwblhau dogfennau gan ategu'r broses gyflwyno a hyfforddi yn ôl yr angen.

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon